



UK Government

Strategaeth Ddur y DU

Am ragor o wybodaeth, neu os ydych yn
meddwl am fuddsoddi yn y DU, cysylltwch
â steelstrategy@businessandtrade.gov.uk.

CP1674



Monty Rakusen,
99307732



Llywodraeth y Deyrnas Unedig
**Yr Adran Busnes, Arloesi,
Gwyddoniaeth a Masnach**

Strategaeth Ddur y DU

Cyflwynwyd i'r Senedd gan Yr Ysgrifennydd Gwladol dros
Yr Adran Busnes, Arloesi, Gwyddoniaeth a Masnach trwy
Orchymyn Ei Fawrhydi

Medi 2026

Mae'r papur hwn yn cymryd lle CP 1532 (ISBN 978-1-5286-6301-4) a gafodd ei gyflwyno i'r Senedd ar 19 Mawrth 2026.



© Hawlfraint y Goron 2026

Mae'r cyhoeddiad hwn wedi'i drwyddedu'n unol â thelerau'r Drwydded Llywodraeth Agored v3.0 ac eithrio lle nodir fel arall. I weld y drwydded hon, ewch i nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3.

Os ydym wedi nodi unrhyw wybodaeth sydd o dan hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd deiliaid yr hawlfraint dan sylw.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn www.gov.uk/official-documents.

Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynghylch y cyhoeddiad hwn atom yn steelstrategy@businessandtrade.gov.uk

ISBN 978-1-5286-6820-0

E03689805 09/26

Argraffwyd ar bapur â lleiafswm cynnwys 40% o ffibr wedi ei ailgylchu.

Argraffwyd yn y DU gan HH Associates Ltd. ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Fawrhydi



Monty Rakusen,
547199469

Cynnwys

Rhagair gan y Gweinidog	6
Crynodeb gweithredol	9
Cynllun ar gyfer dur	15
Yr amgylchedd busnes ar gyfer dur a gynhrychir yn y DU	29
Atodiad A – Ymgynghoriad strategaeth ddur	63
Atodiad B – Costau cynhyrchu dur	64
Atodiad C – Methodoleg Asesu Galw Strategaeth Ddur y DU	65

Monty Rakusen,
1186090888

Rhagair gan y Gweinidog



Y Gwir Anrhydeddus Peter Kyle AS,
Ysgrifennydd Gwladol dros Fusnes
a Masnach a **Chris McDonald AS**,
Y Gweinidog dros Ddiwydiant

Mae dur wedi llunio hanes ein cenedl. O'r rheilffyrdd a bwerodd y chwyldro diwydiannol i ddiwydiannau moduro ac adeiladu datblygedig heddiw, dur fu asgwrn cefn cynnydd Prydain. Mae dur yn ategu'r twf sy'n ysgogi sectorau blaengar o'n strategaeth ddiwydiannol, o weithgynhyrchu uwch a diwydiannau

ynni glân i amddiffyn a thechnolegau digidol, gan gefnogi cymunedau o Bort Talbot i Scunthorpe, Sheffield, Teesside a Motherwell, gan ddarparu degau o filoedd o swyddi ar gyflogau da a chynnal economïau lleol.

Fodd bynnag, mae sector dur y DU wedi gweld degawdau o ddirywiad. Mae heriau gorgapapsiti a waeth-gwyd gan gostau gweithredu uchel wedi ei gwneud yn anos i gwmnïau dur sydd wedi'u lleoli yn y DU gystadlu. Mae hyn wedi arwain at ddiffyg buddsoddi yn ein galluoedd gwneud dur a chymunedau, sydd wedi gweld cynhyrchiant dur craidd yn gostwng mwy na 50% yn y 10 mlynedd ddiwethaf,¹ ac mae safleoedd mawr megis Redcar wedi cau.

Mewn ymateb, rydym wedi gweld patrwm hir o lywodraethau olynol yn methu â gweithredu â gweledigaeth hirdymor, gan ddewis yn hytrach ymyrryd wrth i gwmnïau unigol fethu.

Nid yw'r dirywiad hwn yn anochel. Er bod y diwydiant yn wynebu heriau heddiw, byddwn yn sicrhau ei fod yn arloesi, buddsoddi a thyfu yfory. Rydym yn cymryd camau dewr i newid y duedd hon am i lawr, gan amlinellu gweledigaeth hirdymor i adeiladu sector dur sydd wedi'i adfywio a chydnerth sy'n arwain y byd mewn cynhyrchu dur glân modern. Mae'r gweithredu hwn yn cynnwys cyflwyno'n strategaeth ddiwydiannol sy'n cydnabod rôl sylfaenol bwysig dur yn ein sylfaen ddiwydiannol a'n cydnerthedd cenedlaethol, naill ai wrth gefnogi ein galluoedd amddiffyn, y sector adeiladu, gweithgynhyrchu uwch neu gynnal seilwaith hanfodol ein bywyd o ddydd i ddydd. Yn ogystal, bydd angen i'r llywodraeth hon, ar adegau, weithredu ar frys ac â hyblygrwydd i gyflawni ein huchelgeisiau ar gyfer dur a wneir ym Mhrydain.

Bydd sector dur sefydlog, ffyniannus yn darparu cyflenwad diogel o ddur o ansawdd uchel i gwsmeriaid ymhel-lach i lawr, gan gynnwys mewn sectorau hollbwysig, ac yn cefnogi swyddi gwyrdd hirdymor, o ansawdd uchel. Mae hyn yn golygu mynd i'r afael â'r heriau craidd sy'n wynebu'r sector, gan gynnwys: mynd i'r afael ag ysgogwyr costau gweithredu uchel megis costau trydan uchel a chyflwyno mesurau masnachu cadarn i ddiogelu hyfywedd hirdymor gwneud dur yn y DU. Ar yr un pryd mae'n rhaid i ni achub ar ein cyfleoedd, megis defnyddio cyflenwadau helaeth y DU o ddur sgrap, a sicrhau bod caffaeliadau cyhoeddus a phrosiectau

sydd wedi'u cefnogi gan y llywodraeth yn defnyddio'n gynyddol dur a gynhyrchir yn y DU. Mae hyn hefyd yn golygu gweithredu i gefnogi ein cwmnïau presennol lle mae hynny'n gwneud synnwyr, gan gynnwys cydfuddsoddi rhwng llywodraeth a diwydiant, fel rydym wedi gweld yn Tata Steel ym Mhort Talbot, a'r camau uniongyrchol rydym wedi eu cymryd i ddio-gelu ein cynhyrchiant dur fel y gwelwyd yn ddiweddar yn British Steel.

Mae angen buddsoddiad sector preifat newydd arnom yn ein safleoedd dur presennol; ac i gyflawni capasiti a gallu newydd i wneud dur. Mae'r ddogfen hon yn amlinellu'r camau mae llywodraethau'r DU a'r rhai datganoledig wedi eu cymryd i ddileu rhwystrau rhag buddsoddi a chreu amgylchedd busnes mwy cefnogol, ac rydym am glywed oddi wrth fuddsoddwyr sector preifat sydd â diddordeb. Mae'r llywodraeth hon yn croesawu buddsoddiad gan rai sydd newydd ymuno â marchnad y DU ac mae cymorth cyllido llywodraeth y DU ar gael. Byddwn yn parhau i weithio law yn llaw â llywodraethau datganoledig, yn enwedig ynghylch ein hybiau gwneud dur pwysig yng Nghymru a'r Alban. Mae eu cyfraniad wedi helpu i lunio'r strategaeth hon, fel y mae cyfranogiad undebau llafur.

Gan weithio gyda'n gilydd, gall ein llywodraeth, diwydiant, a chymunedau sicrhau dyfodol i'r diwydiant sy'n gystadleuol yn rhyngwladol, yn ariannol gynaliadwy ac yn ddeniadol i fuddsoddwyr.

Adeiladodd dur ein gorffennol. Bydd yn llunio ein dyfodol.



Jon Bolton,
Cydgadeirydd
y Cyngor Dur

Dechreuais i yn
y diwydiant dur yn
17 oed yn brentis

myfyriwr, wedi fy annog gan fy nhad a awgrymodd y byddwn i â gyrfa mewn gweithgynhyrchu yn gwneud cyfraniad cadarnhaol i gymdeithas. Dros 40 mlynedd yn ddiweddarach, mae'r cyngor hwnnw wedi parhau. Mae'n amlwg fod y diwydiant dur wedi gwneud cyfraniad enfawr i economi'r DU ac mae wrth galon y cymunedau gwneud dur angerddol o gwmpas y DU, rydw i wedi bod yn ddigon lwcus i weithio yn llawer ohonyn nhw.

Wrth inni gyhoeddi'r strategaeth hon, mae'r diwydiant unwaith eto yn wynebu problemau; y mwyaf pryderus ohonynt yw'r broblem gynyddol o orgapasiti a'r ymatebion tameidiog iddo. Mae'r absenoldeb strategaeth hirdymor hyd yn hyn wedi tanseilio cryfder y sector, gyda chymau gweithredu gwleidyddol yn aml yn cael eu cymryd yn adweithiol ac felly heb fynd i'r afael â rhai o'r hanfodion sydd eu hangen i gynorthwyo'r sector.

Y strategaeth hon yw'r tro cyntaf rwyf wedi cymryd rhan mewn ymarfer i sefydlu achos dros fuddsoddi yn sector dur y DU. Er bod ffordd hir at ailadeiladu sector ffyniannus, mae'r strategaeth hon yn dangos yn eglur achos dros fuddsoddi: mae galw sylweddol a chynyddol am ddur y gellir ei fodloni trwy well defnydd o asedau presennol a thrwy fuddsoddi ychwanegol. Mae'r DU yn ffodus hefyd fod ganddi weithlu sgiliau uchel ac ymrwymedig sy'n bodoli yn ogystal â rhwydwaith uchel iawn ei barch o sefydliadau a chyfleusterau academaidd ymchwil, datblygu ac arloesi.

Mae'r ddogfen hon yn ddatganiad o fwriad i sefydlu sector dur diogel sy'n gallu ateb anghenion seilwaith, amddiffyn a diwydiant y DU.



Monty Rakusen,
140872290

Crynodeb gweithredol

Mae dur yn rhan hanfodol o'n bywyd cenedlaethol ac mae'n allweddol i'n twf economaidd. Mae gwneud dur domestig yn darparu swyddi medrus o ansawdd uchel, gan gynnal cymunedau, ac mae'n angenrheidiol ar gyfer ein cydnerthedd a diogelwch cenedlaethol. Mae angen dur ar gyfer gweithgynhyrchu amddiffyn, cynnal ein seilwaith hanfodol cenedlaethol a diwydiannau ehangach sy'n cefnogi ein cydnerthedd megis adeiladu. Mae cyflenwad domestig yn darparu ffynhonnell bwysig o amrywiaeth inni mewn byd yn fwyfwy ansicr. Mae sector dur y DU yn cwmpasu cadwyn gyflenwi eang, o gynhyrchu dur gorffenedig i weithgynhyrchu, dosbarthu a chyflenwi, ac mae wedi'i leoli ar draws y wlad. Mae hwn yn cynnwys y chwe phrif gynhyrchydd dur yn Ne Cymru a Lloegr.

Mae sector dur y DU yn wynebu heriau sylweddol. Mae gorgapasiti byd-eang a chymorthdaliadau annheg yn gyrru prisiau i lawr ac

yn arwain at ymatebion cynyddol dameidiog, gan gyflwyno risgiau dirfodol i gynhyrchwyr dur mewn llawer o wledydd. Yn y DU, mae'r broblem hon yn waeth oherwydd costau gweithredu uchel a seilwaith sy'n heneiddio, gan ei gwneud hi'n fwy anodd i ddur a gynhyrchir yn y DU gystadlu ac felly bygwth bodolaeth gwneud dur yn y DU. Ond mae cyfleoedd hefyd i wneuthurwyr dur yn y DU. Mae bylchau mewn gallu cynhyrchu'r DU, a disgwylir i alw'r DU am ddur, yn enwedig mathau arbenigol o ddur, dyfu dros y degawdau sydd i ddod. Mae gan y DU gryfderau mewn mathau arbenigol o ddur ac sydd o ansawdd uchel ac amgylchedd ymchwil, datblygu ac arloesi cryf. Mae ganddi hefyd gyflenwad helaeth o ddur sgrap ac mae wedi cyflawni cynnydd sylweddol o ran datgarboneiddio'r grid trydan sy'n rhoi cyfle inni aros ar y blaen i gystadleuaeth ym maes cynhyrchu dur gwyrdd.²

Mae'r strategaeth hon yn ymagwedd ragweithiol gan y llywodraeth at gefnogi gwneuthurwyr dur a buddsoddwyr mewn ymateb i'r heriau maen nhw'n eu hwynebu a chydio yn y cyfleoedd sydd ar gael. Mae'n amlinellu gweledigaeth llywodraeth y DU ar gyfer y sector, a'r camau rydym yn eu cymryd i gefnogi'r diwydiant dur i'w chyflawni. Ochr yn ochr â'r ddogfen hon, mae'r llywodraeth hefyd yn cyhoeddi dau adroddiad annibynnol a gafodd eu comisiynu i lywio ein sylfaen dystiolaeth dechnegol ymhellach: [Adolygiad o Wneud Dur Sylfaenol y DU](#) ac [Asesiad Galw am Strategaeth Ddur y DU](#).

Ein gweledigaeth

Ein gweledigaeth yw sector dur wedi'i adfywio sy'n cynnwys cynhyrchwyr dur gwyrdd cynhyrchiol a phroffidiol sy'n gallu darparu cyflenwad sicr o ddur i ateb anghenion eu cwsmeriaid, cefnogi ein diogelwch cenedlaethol a darparu swyddi o ansawdd uchel, sicr a hirdymor.

Ein nod cychwynnol yw sefydlogi'r sector, sicrhau ei hyfywedd, a dychwelyd cynhyrchu domestig i lefelau cynaliadwy diweddar o tua 40-50% o'r galw dur domestig, o'i gymharu â 30% yn 2024 yn ôl ISSB.³

Bydd angen i sefydlogi'r sector fynd law yn llaw â symudiad parhaol at ffurfiau gwyrdd wedi'u datgarboneiddio o gynhyrchu dur, i wireddu buddion technoleg EAF gynhyrchiol, a welwn fel y ffurf fwyaf hyfyw o gynhyrchu wrth i ffwrneisi chwyth traddodiadol gyrraedd diwedd eu hoes weithredol, ac wrth inni barhau tuag at ein huchelgeisiau Sero Net.

Fodd bynnag, bydd cynhyrchu ffwrneisi chwyth yn parhau am y dyfodol agos, ac mae'n hanfodol i sicrwydd cyflenwad, yr ymgwymerir â thrawsnewid dan reolaeth i gynnal gwneud dur a diogelu cydnerthedd economaidd.

Wrth i gynhyrchu EAF gynyddu, bydd angen i gynhyrchwyr gael haearn gwreiddiol o hyd. Mae Adolygiad Sylfaenol Gwneud Dur y DU wedi nodi Haearn Gostyngedig Uniongyrchol (DRI) fel y dull mwyaf hyfyw ar hyn o bryd o gynhyrchu domestig. Am y tro, mae llywodraeth y DU yn hyderus fod gan ein cwmnïau dur presennol fynediad at gyflenwadau angenrheidiol o gynhyrchion haearn. Dros amser, gallai datblygu gallu DRI domestig gryfhau cydnerthedd a chefnogi'r trawsnewid i wneud dur carbon isel.

Yn y tymor hirach, mae llywodraeth y DU yn credu bod potensial i gynyddu ein cyfran cynhyrchu domestig ymhellach trwy fuddsoddi sector preifat mewn galluoedd gwneud dur newydd sy'n ateb galw domestig nad yw'n cael ei gyflawni ar hyn o bryd gan gynhyrchu domestig. Mae opsiynau technegol posibl wedi cael eu hadnabod yn Asesiad Galw Strategaeth Ddur y DU. Mae'r strategaeth hon yn amlinellu achos clir fod cyfleoedd marchnad yn y DU, gan gynnig amgylchedd busnes cynyddol gystadleuol i fuddsoddwyr posibl, cyfleoedd newydd ar gyfer gwneud dur wedi'i ddatgarboneiddio a chyllido cymorth i brosiectau cymwys o'r [Gronfa Gyfoeth Wladol \(NWF\)](#).

Sefydlogi ac ailadeiladu ein sector presennol

I gefnogi'r sector i wireddu'r weledi-gaeth hon, mae llywodraeth y DU wedi cymryd camau i sicrhau bod ein sector dur yn aros yn hyfyw, yn cynyddu i'r eithaf ei gystadleurwydd ac yn dwyn ymlaen fuddsoddiad newydd. Mae hyn yn cynnwys cymorth i gwmnïau unigol a safleoedd dur ledled y DU, lle mae wedi gwneud synnwyr gwneud hynny, gan gynnwys:

- » £500 miliwn o fuddsoddiad yn nhrawsffurfiad £1.25 biliwn Tata Steel o waith dur Port Talbot a £102 miliwn i gynorthwyo gweithwyr a chymunedau yr effeithiwyd arnynt;⁴
- » ymyrraeth ddigynsail yn British Steel er mwyn sicrhau gweithrediad diogel parhaol y ffwrneisi chwyth yn Scunthorpe; a
- » thros £420 miliwn mewn ehangu ein buddsoddiad yn Sheffield Forgemasters a gafodd ei wladoli yn 2021.⁵

Mae'r sector preifat hefyd yn buddsoddi yn y diwydiant, gan gynnwys buddsoddiad £50m gan Marcegaglia Stainless yn ei EAF newydd yn Sheffield,⁶ prynu Celsa Steel UK gan Seven Global Investments a buddsoddiad mawr gan Walsin Lihwa yn eu ffatri Cynhyrchion Tawdd Arbennig yn Sheffield, sy'n dangos bod y DU yn lleoliad deniadol ar gyfer y rheini sy'n buddsoddi mewn galluoedd gwneud dur.

Amgylchedd busnes y DU ar gyfer dur a gynhyrchir yn y DU

I gynorthwyo ein safleoedd dur presennol ac annog rhagor o fuddsoddi preifat, mae llywodraethau'r DU, a'r rhai datganoledig wedi cymryd camau i ddileu rhwystrau rhag buddsoddi a chreu amgylchedd busnes mwy cefnogol, un lle mae cwmnïau dur yn gallu cystadlu'n well, yn cael eu diogelu rhag arferion masnachu annheg a'r risg o ollwng carbon, a chael diogelwch a sicrwydd helaethach. Yn ogystal, rydym yn darparu hyd at £2.5 biliwn i gynorthwyo, ailadeiladu a moderneiddio diwydiant dur y DU.⁷ Bydd y mesurau hyn hefyd o fudd i'n sector dur ehangach, y tu hwnt i'n prif gynhyrchwyr dur.

Sicrhau bod gan y DU amgylchedd busnes sefydlog a chystadleuol

Amddiffyn rhag gorgapasiti byd-eang

o ran dur: Rydym yn cymryd camau cadarn i ddiogelu cynhyrchu domestig hanfodol i sicrhau ein galluoedd diogelwch cenedlaethol gyda mesur masnach dur newydd sy'n dod i rym ar 1 Gorffennaf 2026, yn syth ar ôl i fesur diogelu dur y DU ddod i ben. Mae capasiti gwneud dur yn hanfodol i'n seilwaith cenedlaethol critigol a diogelwch cenedlaethol, oherwydd bod angen cyflenwadau dur i gynnal prif alluoedd. Felly, mae'r mesur wedi ei gynllunio i sicrhau hyfywedd parhaol cynhyrchu dur domestig yn y DU a bydd yn ystyried yr effaith ar gyflenwi i sectorau ymhellach i lawr.

Bydd yn cyflwyno cwtâu cyfraddau tariff gyda chyfeintiau sy'n sylweddol is na'r rheini o dan y drefn ddiogelu bresennol, yn ogystal â chwtâu newydd ar gate-gorïau dur wedi'i wneud yn y DU ond sydd heb ei gynnwys ar hyn o bryd dan y drefn diogelu dur, gyda chyfradd tariff allan o gwota o 50%. Bydd y Llywodraeth hefyd yn archwilio'r posibilrwydd o gyflwyno gofynion i nodi lle'r oedd mewnforion dur yn cael eu toddi a'u tywallt, a allai helpu'r Llywodraeth i ddeall ein cadwyni cyflenwi yn well a sicrhau bod diwydiant dur y DU yn cael ei ddiogelu'n well rhag gorgapasiti byd-eang. Rydym yn aros yn ymrwymedig i hyrwyddo gweithredu rhwyngwladol i fynd i'r afael â gorgapasiti ac ymarferion ystumio'r farchnad a byddwn yn parhau i gydweithio'n agos â gwledydd o gyffelyb fryd.

Lleihau prisiau trydan: O dan ein [Gorchwyl Archbŵer Ynni Glân](#), mae gennym gynllun tymor hir ar gyfer pŵer rhatach, mwy diogel, a glân cynhenid. Yn y cyfamser, rydym yn cynyddu cymorth o dan yr [Uchwefrwr Diwydiant Prydeinig](#) ac yn parhau â chymorth o dan y Cynllun Iawndal Diwydiannau Dwys o ran Ynni i ateb yr amcan o ddod â chostau trydan yn agosach at y rheini mewn gwledydd sy'n cystadlu i gynyddu cystadleurwydd diwydiannol. Gall y cymorth hwn fod o fudd i fuddsoddwyr preifat newydd sy'n ceisio adeiladu capasiti gwneud dur newydd yn y DU. I'r rheini allan o gwmpas y mesurau hyn, rydym hefyd wedi cyhoeddi Cynllun Cystadleurwydd Diwydiannol Prydeinig newydd, arfaethedig i ddod i rym o 2027 ymlaen i ddod â chostau trydan yn agosach at y rheini mewn gwledydd sy'n cystadlu (meini prawf cymhwysedd i gael eu cadarnhau yn ymateb y llywodraeth yn fuan). Wrth i ni gyflwyno cynlluniau adnewyddadwy, byddwn ni'n gweld gostyngiad sylweddol mewn prisiau cyfanwerthu, y sylfaen ar gyfer adeiladu system ynni sy'n gallu dod â biliau i lawr, a hynny'n barhaol.

Lliniaru risg gollwng carbon: Bydd llywodraeth y DU yn cyflwyno Mekanwaith Addasu Ffiniau Carbon y DU (UK CBAM) ar 1 Ionawr 2027. I sicrhau trawsnewid teg a chymesur i'r drefn newydd hon o liniaru gollyngiadau carbon o dan [Gynllun Cyfnewid Allyriadau y DU \(UK ETS\)](#), mae'r Awdurdod ETS wedi [cadarnhau y bydd sectorau a gwmpesir gan CBAM y DU yn gweld eu dyraniadau am ddim yn cael eu dirwyn i ben yn raddol](#). Bydd y dirwyn i ben yn dechrau'n raddol, gyda gostyngiadau cyfyngedig mewn dyrannu'n rhad ac am ddim yn ystod y blynyddoedd cynnar i roi amser i fusnesau addasu. Bydd y mesurau hyn yn sicrhau bod ymdrechion a buddsoddiadau i ddatgarboneiddio yn y DU yn arwain at ostyngiad gwirioneddol mewn allyriadau byd-eang yn hytrach na dadleoli allyriadau carbon dramor. Mae'r DU a'r UE nawr wedi dechrau trafodaethau i ddilyn cysylltu System Masnachu Allyriadau'r DU a System Masnachu Allyriadau'r UE (EU ETS). Disgwylir i gysylltu ddod â buddion economaidd sylweddol i'r DU a bydd hefyd yn hwyluso eithriad o CBAM yr UE, gan leihau costau i fusnesau'r DU.

Sicrhau cyflenwadau sgrap: Bydd grŵp gwaith trawslywodraeth newydd yn ffurfio erbyn Mai May 2026 gyda nod uchelgeisiol i sicrhau cyflenwad cydnerth, cost effeithiol ac o ansawdd uchel o sgrap ar gyfer gwneud dur domestig trwy adolygu argymhellion diwydiant ar gyfer diwygio rheoleidiol a chymorth arloesi yn y gadwyn gyflenwi ailgylchu metel sgrap.

Datblygu gweithlu medrus ymhellach: Mae llywodraeth y DU yn cefnogi prentisiaethau a thrwy'r Cyngor Dur byddwn yn meithrin cydweithio rhwng diwydiant, llywodraethau datganoledig a rhanddeiliaid ehangach i fynd i'r afael â gofynion gweithlu'r sector. Mae llywodraeth y DU yn parhau'n ymrwymedig i drawsnewid teg ar gyfer gweithwyr ac mewn cydweithrediad â phartneriaid a chwmnïau rhanbarthol, bydd cymorth arbennig

yn cael ei ddarparu fesul achosion unigol i weithwyr yr effeithir arnynt gan newidiadau mewn amgylchiadau cwmniâu. Mae hyn yn cael ei gefnogi gan flaenoriaethau sgiliau Llywodraeth Cymru, gan gynnwys cyllido a rheoleiddio'r sector addysg ac ymchwil trydyddol gan Medr, cyllid sydd ar gael trwy'r Rhaglen Sgiliau Hyblyg, a'r archwiliad sgiliau cenedlaethol i Gymru sydd i ddod. Yn yr Alban, bydd ymagwedd cynllunio sgiliau cenedlaethol yn canolbwyntio ar nodi a blaenoriaethu sgiliau proffesiynol a thechnegol sy'n uniongyrchol gysylltiedig â galwedigaethau penodol, mewn sectorau a nodir yn y Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Trawsfurfio Economaidd, Y Strategaeth Ddiwydiannol Werdd a'r Strategaeth Arloesi Genedlaethol. Mae Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth yr Alban yn cydnabod yr angen am ymyriadau tymor byr i fynd i'r afael â heriau sgiliau mewn sectorau economaidd blaenoriaeth, ochr yn ochr â diwygio tymor hwy i'r System Cynllunio Sgiliau.

Ymchwil, datblygu ac arloesi sy'n arwain y byd: Mae llywodraeth y DU ac asiantaethau partner yn parhau i gefnogi prosiectau ymchwil, datblygu ac arloesi dur trwy amrediad o lwybrau cyllido. Gan gynnwys £11 miliwn dros 7 mlynedd gan yr EPSRC i raglen ymchwil IGNITE i gyllido prosiectau cydweithredol rhwng academyddion blaenllaw, cynhyrchwyr dur, cwsmeriaid a'r gadwyn gyflenwi.⁸ Trwy'r Cyngor Dur, mae gwaith wedi dechrau i sefydlu grŵp gwaith diwydiant i gydgyfeirio gweithgareddau ymchwil, datblygu ac arloesi i anghenion diwydiant â'r nod o wella cystadleurwydd y sector. Cefnogir hyn gan Strategaeth Arloesi Llywodraeth Cymru – Cymru'n Arloesi – a Chymorth Arloesi Hyblyg SMART, yn ogystal â Strategaeth Arloesi Genedlaethol yr Alban.

Creu cyfleoedd a thwf

Cymorth cyllido: Mae gan yr NWF £5.8 biliwn o gyfalaf i'w ddyrannu i bum sector ynni glân a gweithgynhyrchu uwch dros y Senedd hon, sy'n cynnwys dur.⁹ Mae'r NWF yn cynnig amrywiaeth o gynhyrchion cyllid gan gynnwys dyled, ecwiti (isafswm swm buddsoddi yw £25mn) a gwarantau ar gyfer prosiectau dwys o ran cyfalaf. Mae'r cymorth hwn ar gael ledled y DU, a gall prosiectau cymwys fod mewn ardaloedd gwneud dur presennol, neu ar gyfer buddsoddiad newydd, y tu allan i leoliadau dur hanesyddol. Mae rhagor o gymorth ar gael trwy [Fanc Busnes Prydain](#), [Cyllid Allforio'r DU \(UKEF\)](#), a banciau buddsoddi cenedlaethol.

Gwella mynediad at dir addas, cysylltiadau grid trydan a chaniatâd cynllunio: Mae llywodraeth y DU wedi lansio'r Gwasanaeth Cyflymydd Cysylltiadau i gefnogi cysylltiadau grid amserol i brosiectau galw strategol. Mae cyfreithiau cynllunio wrthi'n cael eu diwygio i gyflymu prosiectau strategol, gan leihau oedi ac ansicrwydd i fuddsoddwyr. Mae dros £600 miliwn yn cael ei fuddsoddi i ddod â safleoedd diwydiannol ar raddfa fawr i'r farchnad yn gyflymach.¹⁰ Mae Ofgem yn adolygu cymhellion rhwydwaith, ac mae diwygiadau ar y gweill i gyflymu amserau adeiladu seilwaith trosglwyddo. Cefnogir hyn gan ymdrechion Llywodraeth Cymru i wella cyflymder a pherfformiad cydsynio, gan gynnwys buddsoddi uniongyrchol o fewn cyrff cenedlaethol a gwelliannau ar lefel leol. Mae system gynllunio'r Alban wedi cael ei diwygio, a Hyb Cynllunio Cenedlaethol wedi'i gyflwyno i dargedu cymorth i awdurdodau cynllunio a mynd i'r afael â heriau adnoddau a chapasiti.

Symbylu galw am ddur domestig: Mae'r trethdalwr yn disgwyl, a hynny'n gymwys, y bydd gwariant llywodraeth y DU yn cefnogi twf diwydiannol y DU pan fo'n bosibl. Felly rydym wedi cyhoeddi canllawiau newydd ([Nodyn Polisi Caffael Cyhoeddus 022](#)) i sicrhau ystyriaeth yn fater o drefn o ddur a gynhyrchir yn y DU mewn caffael cyhoeddus. Yn y [cyhoeddiad data caffael dur blyn-ddol](#) rydym yn darparu data ar darddiad dur a gaffaelir gan adrannau llywodraeth ganolog a'u hasiantaethau, a phiblinell i hysbysu'r farchnad o ofynion dur yn y dyfodol. Yn ogystal â newidiadau caffael cyhoeddus, o 2026 ymlaen, gall datblygwyr ynni gwynt alltraeth gynnwys gweithgynhyrchwyr dur y DU mewn ceisiadau am [Fonws Diwydiant Glân](#). Mae'r llywodraeth wedi ymgynghori hefyd ar amrediad o bolisiau, gan gynnwys dosbarthiad cynnyrch, a gynlluniwyd i dyfu'r farchnad am gynhyrchion dur gwyrdd. Mae polisi Llywodraeth Cymru ar gaffael dur wedi'i nodi yn Nodyn Polisi Caffael Cymru (WPNN) 008, sy'n hyrwyddo egwyddorion allweddol fel caffael cynaliadwy ac ymgysylltu cynnar a chynhyrchwyr dur y DU mewn prosiectau caffael mawr. Mae'r [Cynllun Buddsoddi Seilwaith ar gyfer yr Alban 2021-22 i 2025-26](#) wedi cael ei ddefnyddio i gynhyrchu piblinell o ofynion dur a bydd Llywodraeth yr Alban yn ymgynghori'n fuan ar broses strategaeth seilwaith newydd. Mae llywodraeth yr Alban hefyd yn darparu cyfres o Offer Caffael Cynaliadwy ar-lein i helpu caffaelwyr sector cyhoeddus i addasu i ymarfer mwy effeithlon o ran adnoddau a chaffael cynaliadwy.



Monty Rakusen,
102069359

Rhan 1:

Cynllun ar gyfer dur

Pwysigrwydd dur

Mae dur yn rhan hanfodol o fywyd ein gwlad ac yn allweddol i genhadaeth blaenoriaeth llywodraeth y DU i gyflawni twf economaidd cryf, sicr a chynaliadwy. Mae'n ddiwydiant sylfaenol ar gyfer twf sy'n ysgogi sectorau a nodir yn ein [strategaeth ddiwydiannol](#), gan gynnwys gweithgynhyrchu uwch, ynni glân, ac amddiffyn, yn ogystal â rhannau craidd o'n heconomi, megis adeiladu a pheirianeg.

Mae gwneud dur hefyd yn cynnal cymunedau. O Gasnewydd i Sheffield i Motherwell, mae traddodiadau balch o ran gwneud dur, ac mae cwmnïau dur yn gyflogwyr ar raddfa fawr o swyddi medrus ac o ansawdd uchel. Yn 2024, cefnogodd y sector haearn a dur tua

40,000 o swyddi uniongyrchol,¹¹ gyda gwneuthurwyr dur y DU yn talu 32% yn uwch ar gyfartaledd na chyflogau canolrif lleol.¹²

Nododd ein [strategaeth ddiogelwch genedlaethol 2025](#) yr angen am sylfaen ddiwydiannol gryfach ym maes amddiffyn a mwy cydnerth a'r angen i ddiogelu a meithrin galluedd sofran eraill sy'n sylfaenol i'n sylfaen ddiwydiannol. Mae rôl dur yn ymestyn y tu hwnt i weithgynhyrchu amddiffyn yn unig, ac mae'n cynnwys cynnal seilwaith cenedlaethol critigol, o'r rheilffyrdd i systemau ynni a thelegyfathrebu a thu hwnt, a sylfeini ein bywyd pob dydd, megis adeiladu a nwyddau gwyn.

Mae llywodraeth y DU yn credu bod cynnal cynhyrchu dur domestig yn angenrheidiol i'n diogelwch cenedlaethol. Gallai tensiynau geowleidyddol ac anwadalwch marchnadoedd arwain at risg gynyddol o annibynadwyedd mewnforio dan rai amgylchiadau. Bydd sector domestig cryf a chynaliadwy yn cadw ffynhonnell bwysig o amrywiaeth yn ein marchnad ddomestig fydd yn ein cefnogi wrth ymateb yn hyblyg i ddigwyddiadau'r dyfodol er mwyn cynnal cyflenwad diogel o ddur. Nid ydym ar ein pennau'n hunain yn y safle hwn, mae holl wledydd y G7 wedi cymryd camau i gefnogi eu gweithwyr dur. Mae'n rhaid i'n nod fod cynyddu lefelau cynhyrchu cyffredinol trwy sicrhau hyfywedd a gwella cystadleurwydd yr amgylchedd busnes a chefnogi buddsoddi, i ddarparu sylfaen ddiogel ar gyfer dyfodol gwneud dur yn y DU.

Y dirwedd gwneud dur

Mae diwydiant dur y DU yn cwmpasu amrediad eang o fusnesau ar draws y gadwyn gyflenwi, o fewnbynnau gwneud dur i gynhyrchu, gweithgynhyrchu, dosbarthu a chyflenwi. Yn y DU, mae capasiti cynhyrchu dur yn dod o chwe chwmni a restrir isod sydd wedi'u lleoli yng Nghymru a Lloegr.

Cwmni	Lleoliad yr Ased Cynhyrchu Dur Crai	Capasiti'r Ased Cynhyrchu ¹³	Cyfleusterau Rholio a Phrosesu Allweddol ¹⁴	Prif Gynhyrchion ¹⁵	Prif Sectorau ¹⁶
Tata Steel UK	Port Talbot – Cymru	Trawsnewid i 3.2 Mt EAF	Port Talbot Llanwern Trostre Shotton Hartlepool Corby	Fflatiau megis Coil Poeth Wedi'i Rolio, Tiwbiau Poeth Wedi'u Gostwng a'u Galfaneiddio ac wedi'u weldio	Moduro, Adeiladu, Ynni
British Steel	Scunthorpe – Gogledd Swydd Lincoln	2.5 Mt Ffwrnais Chwyth	Scunthorpe Teesside (Dyffryn Tees) Skinningrove (Dyffryn Tees)	Eitemau hir megis rheilffordd, ac adrannau	Adeiladu Rheilffordd, Moduro
7 Steel	Caerdydd – Cymru	Capasiti 1.2 Mt EAF	Castle Works Tremorfa	Eitemau hir megis ailfario ac adrannau	Adeiladu, Cludiant, Ynni
Marcegaglia	Sheffield – Swydd Efrog	Capasiti 0.5 Mt EAF	Dudley Oldbury	Cynhyrchion gwrthstaen lled orffenedig, rodiau a bariau	Diwydiant Mecanyddol, Moduro

Cwmni	Lleoliad yr Ased Cynhyrchu Dur Crai	Capasiti'r Ased Cynhyrchu ¹³	Cyfleusterau Rholio a Phrosesu Allweddol ¹⁴	Prif Gynhyrchion ¹⁵	Prif Sectorau ¹⁶
Speciality Steel UK	Rotherham – Swydd Efrog	Capasiti 1.2 Mt EAF,	Thrybergh Stocksbridge Brinsworth Wednesbury	Dur arbenigol, bariau, stripiau a choiliau	Adeiladu, amddiffyn, ynni
Sheffield Forgemasters	Sheffield – Swydd Efrog	Capasiti 0.2 Mt EAF	-	Specialist Forgings	Niwclear, Amddiffyn

Mae gan y DU hanes hir o gynhyrchu dur, gyda llawer o fanteision unigryw. Pwysleisiodd mwy na thraean o ymatebwyr i'n hymgyngoriad strategaeth ddur¹⁷ arbenigedd y sector mewn mathau arbenigol o ddur ac o ansawdd uchel yn gryfder penodol, a chrybwyllodd tua chwarter ecosystem weithgynhyrchu'r DU, mynediad at ddur sgrap ac amgylchedd ymchwil, datblygu ac arloesi.


Disgwylir i'r gwahaniaeth rhwng capasiti dur byd-eang gyrraedd 721 miliwn tonnell fetrig erbyn 2027 yn ôl OECD, 13% mwy na'r capasiti cynhyrchu presennol o holl wledydd yr OECD.¹⁸ Mae'r gorgapasiti hwn, wedi'i ysgogi gan gymorthdaliadau annheg, yn creu risgiau dirfodol i gynhyrchwyr dur; ac mae gwledydd amrywiol, gan gynnwys pob un o wledydd yr G7, wedi dod i'r casgliad nad oes ganddynt ddewis ond gweithredu i ddiogelu eu diwydiannau.

Yn y DU, mae'r problemau hyn yn waeth yn hanesyddol oherwydd costau gweithredu uchel, gan gynnwys costau trydan a llafur uchel, sydd wedi arwain at ddiffyg buddsoddi hirdymor yn y diwydiant sydd wedi ein gadael ag asedau sy'n heneiddio.

Mae buddsoddi yn ofynnol yn rhywfaint o'n seilwaith presennol i osgoi'r risg o adael ein gallu gwneud dur y tu ôl i wledydd tebyg a dur wedi'i gynhyrchu yn y DU yn methu cystadlu â mewnforion. Mae ymatebion i'n hymgyngoriad strategaeth ddur yn dilysu'r heriau hyn, a mwy na 50% o ymatebwyr yn crybwyll prisiau ynni yn bwysau, yn ogystal â thros 25% yn codi risgiau o ollyngiadau carbon, tanfuddsoddi, geowleidyddiaeth a'r amgylchedd masnachu.¹⁹ Crybwyllodd ymatebion hefyd rwystrau yn y broses gynllunio sy'n gallu dal buddsoddi yn ôl.

Mae effaith y straen hwn yn glir i'w weld: mae cynhyrchwyr dur lluosog yn wynebu anawsterau a syrthiodd cynnyrch i'r safle isaf erioed yn 2024, a 30% o alw domestig yn unig yn cael ei ateb gan gynhyrchu domestig yn ôl ISSB. Mae hyn i'w gymharu â chyflenwad domestig, fel arfer, yn aros rhwng 40% a 50% rhwng 2010 a 2020.²⁰ Mae'r duedd hon wedi arwain at ddibyniaeth gynyddol ar fewnforion sy'n peryglu bod yn agored i farchnad fyd-eang anwadal ac effeithiau dilynol ar gydnerthedd ein cadwyni cyflenwi.

Galw'r DU am gynhyrchion melinau dur
2010-2024, Miliwn tunnell



Ffynhonnell: ISSB²¹

Gweledigaeth y llywodraeth ar gyfer y sector

Mae angen ymagwedd ragweithiol gan y llywodraeth i ddarparu'r sylfeini ar gyfer sector dur preifat llwyddiannus. Fodd bynnag, mae'n rhaid gwneud hyn mewn modd teg a rhesymol er mwyn osgoi hybu ymarferion ystumio'r farchnad sydd wedi creu cymaint o broblemau.

Gweledigaeth llywodraeth y DU yw sector dur sydd wedi'i adfywio ac sy'n cynnwys cynhyrchwyr gwyrdd

cynhyrchiol a phroffidiol sy'n gallu darparu cyflenwad diogel o ddur i ateb anghenion eu cwsmeriaid, cefnogi ein diogelwch cenedlaethol a darparu swyddi diogel a hirdymor o ansawdd uchel. Ein nod cychwynnol felly yw sefydlogi ac ailadeiladu ein sector presennol, gan sicrhau hyfywedd gwneud dur y DU, a gwrthdroi'r duedd bresennol o gyfran ostyngol o'r farchnad ddomestig a dychwelyd i lefelau a gynhaliwyd yn ddiweddar o gyflenwi 40-50% o'r galw domestig yn gan gynhyrchiant domestig. Bydd angen i hyn fynd law yn llaw â symudiad parhaol at ffurfiau gwyrdd, edï'u datgarboneiddio, o gynhyrchu dur i wireddu'r buddion o dechnoleg ffwrnais

arch drydan gynhyrchiol fodern (EAF) a chydgyfeirio â'n huchelgeisiau Sero Net. Yn y tymor hirach rydym yn gweld potensial ar gyfer buddsoddi newydd mewn capasiti a gallu newydd i wneud dur.

Mae llywodraeth y DU yn croesawu newydd-ddyfodiaid i farchnad y DU a allai olygu gwneud dur mewn ardaloedd y tu hwnt i ganolfannau diwydiannol hanesyddol. Mae amgylchedd busnes mwy cystadleuol a gyrru tuag at farchnad ddomestig fwy i ddur a gynhyrchir yn y DU yn cynnig cyfleoedd cyffrous i fuddsoddwyr fydd yn dod yn rhan o ddiwydiant dur ffyniannus y dyfodol. Gallai'r lleoliad ar gyfer buddsoddi gael ei benderfynu gan ffactorau datblygu, er enghraifft mynediad at gyflenwadau sgrap neu i leoli ger sectorau ysgogi twf strategaeth ddiwydiannol, gyda photensial ar draws holl wledydd y DU. Yn ogystal ag ehangu ein sylfaen ddiwydiannol, byddai buddsoddi yn cynnig cyfleoedd newydd i'n gweithlu, gan ddarparu swyddi medrus, gan gynnwys mewn technolegau newydd a mathau o gynhyrchu, mewn lleoliadau ar draws y DU. Cafodd y potensial hwn ar gyfer buddsoddi i ddigwydd y tu allan i'n rhanbarthau gwneud dur traddodiadol ei adlewyrchu mewn ymatebion i ymgynghoriad y strategaeth ddur. Gall partïon sydd â diddordeb mewn buddsoddi yn y DU gysylltu â'r Adran Fusnes a Masnach yn steelstrategy@businessandtrade.gov.uk

I gyflawni'r nodau hyn rydym wedi cymryd camau i gynyddu i'r eithaf gystadleuwydd y sector a sicrhau ei fod yn parhau'n hyfyw. Rydym wedi darparu cymorth i nifer o'n cwmnïau presennol, wedi trefnu bod cymorth ariannol uniongyrchol ar gael, ateb ymrwymiad ein maniffesto o ddarparu hyd at £2.5 bn i'r sector, ac wedi gweithredu amrediad o fesurau i greu amgylchedd busnes mwy cefnogol.

Bydd rhoi'r diwydiant dur ar seiliau sicrach yn creu'r sylfeini ar gyfer twf, yn diogelu swyddi a seilwaith presennol pwysig, yn cynnal cyflenwad i sectorau ymhellach

i lawr, ac yn sicrhau ein diogelwch cenedlaethol ac anghenion seilwaith cenedlaethol hollbwysig. Mae gan gynhyrchion dur ran hanfodol i'w chwarae yn ein diogelwch cenedlaethol, naill mewn gweithgynhyrchu amddiffyn, cynnal ein seilwaith cenedlaethol hollbwysig, fel rheilffordd neu delegyfathrebiadau, a chefnogi ein cydnerthedd ehangach, er enghraifft yn ein galluoedd adeiladu. Ni fydd byth yn ddichonadwy, nac yn ddymunol, i holl alw'r DU gael ei ateb trwy gyflenwad domestig, a bydd mewnforion yn chwarae rôl hanfodol bob amser yn ein cadwyni cyflenwi. Bydd diogelu, ac wedyn helpu i greu'r amodau ar gyfer cynnydd mewn cynhyrchu domestig, a darparu cyfleoedd i gynhyrchwyr cynhenid ar gyfer twf economaidd, yn cynyddu cydnerthedd i mewn i'n cadwyni cyflenwi gan y bydd gan y DU hyblygrwydd helaethach i ymateb i faterion byd-eang sy'n codi heb beryglu mynediad at gyflenwad diogel o ddur.

Yn ogystal â data a gasglwyd trwy ein hymgynghoriad a chyfraniadau at alwad am dystiolaeth y mesurau masnach dur, mae'r strategaeth wedi cael ei datblygu â mewnbwn gan y Cyngor Dur a ailsefydlwyd yn Ionawr 2025, gan gynnwys cynhyrchwyr dur, y sector dur ehangach a'i gadwynau cyflenwi, undebau llafur, a'r llywodraethau datganoledig. Yn ogystal cynhaliwyd cyfres o gyfarfodydd bord gron penodol i bolisi a chomisiynu dau adroddiad annibynnol sef [Adolygiad Gwneud Dur Gwreiddiol y DU](#) ac [Asesiad o Alw Strategaeth Dur y DU](#) ('yr asesiad o alw') sydd hefyd wedi llywio ein sylfaen tystiolaeth dechnegol.

Mae llywodraeth y DU yn deall y bydd y cyd-destunau domestig a rhyngwladol yn parhau i esblygu, ac y gall y strategaeth hon fod yn un cam yn unig mewn rhaglen waith hirach o lawer. Byddwn yn parhau i weithio'n agos gyda diwydiant i fynd i'r afael â materion pwysig parhaol.

Sefydlogi ac ailadeiladu ein sector presennol

Ein hasedau dur presennol yw sylfaen ein sector. Mae trosoli asedau, seilwaith, cadwyni cyflenwi a gweithluoedd medrus sefydledig, lle mae'n gwneud synnwyr gwneud hynny, yn caniatáu'r llwybr cyflymaf posibl at ddiogelu'r gwaith o wneud dur yn y DU a gwireddu'r cyfl-eoedd ar gael wrth inni ailadeiladu'r sector. Mae llywodraeth y DU wedi cymryd camau eisoes i gynorthwyo ein safleoedd dur presennol a'r cymunedau ledled y wlad sy'n cael budd o'u cyflogaeth.

De Cymru

Mae dur yn rhan sylweddol o'r economi yn Ne Cymru. Mae cynhyrchu Cymreig, a gwaith Tata Steel UK ym Mhort Talbot, ochr yn ochr â 7 Steel wedi'i leoli yng Nghaerdydd, yn ffurfio rhan graidd o sylfaen ein gallu gwneud dur cenedlaethol. Yn seiliedig ar gapasiti cynhyrchu Tata Steel UK yn y dyfodol, disgwylir i Gymru gyfrif am tua hanner o gapasiti gwneud dur y DU.²² Bydd Ysgrifennydd Gwladol Cymru yn cynnull y NWF a'r sector preifat mewn cynllun newydd i helpu i ddatgloi buddsoddiad mewn prosiectau dur Cymreig, i gynorthwyo cymunedau ledled Cymru sy'n dibynnu ar y diwydiant.

Tata Steel UK

Mae gan Tata Steel ôl troed sylweddol yn y DU trwy ei safle ym Mhort Talbot, ochr yn ochr â safleoedd ychwanegol yng Ngogledd Cymru a Hartlepool, ac mae hyn yn chwarae rhan bwysig yn y gadwyn gyflenwi ar gyfer sectorau twf gweithgynhyrchu uwch, gan gynnwys cynhyrchu moduro yn Jaguar Land Rover a BMW.

Ym Medi 2024, cyhoeddodd llywodraeth y DU fuddsoddiad o £500miliwn mewn cyllid grant i gefnogi prosiect cyfalaf £1.25biliwn Tata yng Ngwaith Dur Port Talbot, gan adeiladu EAF mawr a seilwaith cefnogol.²³ Mae 5,000 o swyddi wedi cael eu diogelu ledled y wlad ar ôl y trosglwyddo, a gwell bargaen i'r gweithwyr yr effeithiwyd arnynt gan y trawsnewid yn dilyn trafodaethau cydweithredol rhwng Tata Steel ac undebau llafur.²⁴ Mae'r grant hwn yn galluogi trawsnewid Port Talbot at ddur gwyrdd, wrth barhau i gynhyrchu dur fflat yn Ne Cymru yn ystod y trawsnewid i gyfnod newydd o wneud dur.

Cafodd Bwrdd Trawsnewid Port Talbot, a gadeirir gan Ysgrifennydd Gwladol Cymru, ei sefydlu hefyd i ddyrannu pecyn cymorth £122 miliwn (£102m o lywodraeth y DU a £20m gan Tata) i gefnogi'r ardal leol,²⁵ y gadwyn gyflenwi ac unigolion yr effeithiwyd arnynt, ac i greu cyfl-eoedd buddsoddi newydd. Hyd yn hyn, mae hyn wedi cynnwys cymorth ariannol ar gyfer creu 85 busnes newydd trwy grantiau Cronfa Cychwyn Busnes, grantiau i 59 cwmni yng nghadwyn gyflenwi Tata Steel UK trwy'r Gronfa Gadwyn Gyflenwi, cymorth i 141 o fusnesau lleol trwy'r Cronfeydd Cydnerthedd a Thwf Busnes a chyflawni miloedd o gyrsiau²⁶ hyfforddi a chymwysterau ar gyfer unigolion yr effeithiwyd arnynt. Mae cyflawni cyflym cyllid llywodraeth y DU wedi helpu i sicrhau hyd yn hyn nad oes cynnydd wedi bod mewn cymryd budd-daliadau diweithdra yn rhanbarth Port Talbot ers i gyfnod trawsnewid Tata Steel UK ddechrau.

Cyllid Bwrdd Trosiannol Port Talbot.

Cyllid (tua £75 miliwn):

Cefnogir y Gronfa Twf ac Arloesedd Economaidd a agorodd ar gyfer ceisiadau yn Chwefror 2026, gan £11.8 miliwn gan gynnwys £6.8 miliwn gan lywodraeth y DU a £5 miliwn gan Tata Steel UK.²⁷ Gall busnesau sy'n bwriadu buddsoddi yn rhanbarth Port Talbot ddefnyddio'r gronfa i'w helpu i dyfu, creu swyddi o ansawdd uchel, a denu buddsoddiad hirdymor. Mae'r gronfa yn cefnogi cwmnïau sy'n cynnig cyfleoedd medrus, sy'n talu'n dda ac sy'n cyd-fynd â thalentau'r gweithlu lleol.

Mae Cronfa Drawsnewid y Gadwyn Gyflenwi yn cefnogi busnesau'r gadwyn gyflenwi sy'n dibynnu'n drwm ar Tata Steel fel eu prif gwsmer, gan ganiatáu iddynt droi tuag at farchnadoedd a chwsmeriaid newydd pan fo angen.

Mae'r Gronfa Gyflogaeth a Sgiliau ar gael i weithwyr yr effeithir arnynt gan y trawsnewid, gan ganiatáu iddynt ailhyfforddi neu ddysgu sgiliau newydd ar gyfer y farchnad gyflogaeth.

Cronfa Cychwyn Busnes i helpu pobl yr effeithir arnynt i gychwyn busnesau bach, newydd mewn sectorau megis plymwaith, logisteg, TG, ac adeiladu.

Cronfa Cydnerthedd Busnes i helpu busnesau sy'n dibynnu ar Tata ond heb fod yn y gadwyn gyflenwi, megis siopau a chaffis, i addasu i'r newidiadau.

Cronfa Twf Busnes i helpu'r busnesau hynny sydd ym Mhort Talbot eisoes i gyflogi staff newydd a thyfu i mewn i farchnadoedd newydd.

Y Gronfa Iechyd a Llesiant Meddwl i ddarparu cymorth iechyd meddwl i weithwyr dur a'u teuluoedd, yn ogystal â'r gymuned ehangach. Mae Llesiant yn hanfodol i sicrhau ac aros mewn cyflogaeth. Felly, bydd y cyllid hwn yn cyfrannu at genhadaeth y lywodraeth y DU i hybu twf economaidd a chodi safonau byw yng Nghymru, yn rhan o'i Chynllun am Newid.

Prosiectau adfywio (tua £30 miliwn)

Cafodd cyllid ar gyfer prosiect adfywio ym Mhort Talbot ei gyhoeddi gan Ysgrifennydd Gwladol Cymru ar 6 Chwefror, a ymrwymodd dros £8m o gyllid y Bwrdd Pontio i gefnogi prosiect Pontio Diwydiannol De Cymru o Hyb Carbon.²⁸ Bydd hyn yn aildatblygu safle pedair erw yn Harbourside, Porth Talbot fydd yn cynnwys adeiladu gofod ychwanegol cyffredin, ymgymryd â lliniaru llifogydd a darparu cyfarpar arbenigol. Bydd y buddsoddiad yn helpu sefydlu Ardal Arloesi ym Mhort Talbot. Bydd hyn yn cefnogi mwy na 100 o swyddi.

Cafodd tri phrosiect twf ac adfywio ychwanegol eu cyhoeddi ar 22 Mai, ar gyfer creu Cyfleuster Cynhyrchu Gweithgynhyrchu Uwch a Chanolfan Ragoriaeth Sgiliau Sero Net Cenedlaethol ac ar gyfer ailddatblygu Metal Box a Chanolfan Fusnes Sandfields. Bydd y tri phrosiect hyn yn cefnogi dros 270 o swyddi ac yn dod ag amcangyfrif o £119 miliwn i'r economi leol dros y 10 mlynedd nesaf.²⁹

7 Steel:

Yn 2025, prynodd Seven Global Investments y cwmni o Gaerdydd Celsa Steel UK i greu 7 Steel UK. Mae gan ei brif waith yng Nghaerdydd ffwrnais arch drydan â chapasiti o 1.2 miliwn tunnelli fetrig, gan gynhyrchu cynhyrchion i'r sector adeiladu, gan gynnwys bar wedi'i atgyfnerthu, bariâu masnachwr, adrannau golau, a rodiau weiren. Mae 7 Steel yn defnyddio 98% sgrap yn ei gynhyrchion dur, gan helpu lleihau ei ddwystr carbon ac mae ar hyn o bryd yn gosod ffwrnais barod am hydrogen yn un o'i felinau rholio, yn elfen allweddol o'i ymgyrch tuag at gynhyrchu seronet.

Gogledd Swydd Lincoln

British Steel:

British Steel, a'i bencadlys yn Scunthorpe gyda gweithrediadau ychwanegol yn Teesside, yw'r cynhyrchwr cynhyrchion dur hir mwyaf yn y DU, sy'n gweithredu ffwrneisi chwyth olaf y wlad. Hwn yw unig gynhyrchwr rheiliau'r DU, gan gyflenwi 80% o ofynion rheiliau Network Rail,³⁰ a hwn hefyd yw unig gynhyrchwr adrannau trymion y DU, gan gyflenwi cynhyrchion allweddol i mewn i ddiwydiant adeiladu'r DU.

Er mwyn sicrhau cynhyrchu dur parhaol yn Scunthorpe ac atal cau cynamserol y ffwrneisi chwyth, galwodd llywodraeth y DU y Senedd yn ôl ar 12 Ebrill 2025 i gymerdawyo Deddf y Diwydiant Dur (Mesurau Arbennig). Nid yw'r ddeddfwriaeth hon yn newid perchenogaeth British Steel, ond mae'n galluogi'r llywodraeth i gyhoeddi cyfarwyddiadau strategol mewn perthynas â gweithrediadau hollbwysig i sicrhau y rhedir y ffwrneisi chwyth yn barhaol a diogel.

Mae ymyrraeth y llywodraeth, gan gynnwys cyllid sylweddol gan y llywodraeth ar ffurf benthyciadau, wedi cynnal y gwaith o wneud dur yn Scunthorpe, gan gyfrannu, felly, at ei huchelgeisiau ar gyfer y sector. Mae swyddogion llywodraeth yn parhau i ddarparu cymorth ar y safle i reolwyr British Steel, gan sicrhau cynhyrchu dur domestig heb darfu arno a monitro'r defnydd o arian trethdalwyr.

Rydym yn parhau i weithio gyda pherchenogion British Steel i ganfod ateb pragmataidd, realistig ar gyfer dyfodol British Steel. Bydd ein dyhead hirdymor ar gyfer sector dur y DU yn golygu y bydd gofyn cydfuddsoddi â'r sector preifat. Ar draws y sector dur, mae cyfranogaeth y sector preifat yn galluogi moderneiddio a datgarboneiddio ac yn diogelu arian trethdalwyr.

De Swydd Efrog

Mae'r rhanbarth wedi cael ei ddewis yn un o bum ardal i elwa o Gytundeb Twf Amddiffyn yn rhan o'r Strategaeth Ddiwydiannol Amddiffyn. Bydd y cytundebau twf yn cynnwys £250 miliwn cyfunol i ddatgloi potensial awdurdodau lleol, busnesau a sefydliadau ymchwil i gefnogi amddiffyn y DU wrth hybu buddion economaidd.³¹ Cafodd De Swydd Efrog ei ddewis gan ei fod eisoes yn gartref i ymchwil, datblygu a pheirianeg o gydrannau graddfa uchel a deunyddiau sy'n hollbwysig i'r genhedlaeth nesaf o alluoedd yn y môr, tir ac awyr. Mae hyn yn cynnwys dur arbenigol ar gyfer barilau gynnau a llongau tanfor niwclear.

Speciality Steel UK:

Mae Speciality Steel UK (SSUK) a oedd gynt yn rhan o'r grŵp Liberty o gwmnïau, yn cynnwys safleoedd dur yn Rotherham, Stocksbridge, Brinsworth yn Ne Swydd Efrog, yn ogystal â safle yn Wednesbury. Mae gan safle Rotherham ddwy EAF ac mae safle Stocksbridge, wedi'i gyflenwi â dur sydd wedi'i gynhyrchu mewn EAF o safle Rotherham, yn cynhyrchu cynhyrchion arbenigol o werth uchel ar gyfer gweithgynhyrchu, megis awyrofod, olew a nwy, a pheirianeg ddiwydiannol.

Ar 21 Awst 2025, dosbarthwyd gorchymyn dirwyn i ben gan yr Uchel Lys i SSUK oherwydd materion ariannol hirhoedlog a chafodd y Derbynnydd Swyddogol ei benodi i reoli'r diddymiad. Mae'r llywodraeth yn darparu cyllid i'r Derbynnydd Swyddogol i redeg proses werthiant ar gyfer y safleoedd ac mae'n ymgysylltu â phartïon sydd â diddordeb i archwilio opsiynau ar gyfer dyfodol safleoedd SSUK yn unol ag amcanion y strategaeth hon.

Sheffield Forgemasters:

Cwblhaodd y Weinyddiaeth Amddiffyn brynu Sheffield Forgemasters yn 2021 i sicrhau ei allu unigryw i gyflenwi cydrannau dur cywirdeb uchel ar raddfa fawr i raglenni amddiffyn presennol a rhai'r dyfodol. Ers hynny, ymrwymodd llywodraeth y DU i raglen fuddsoddi 10 mlynedd i gyflawni uwchraddiadau allweddol gan gynnwys ffwrn drom 13,000 tonnall fetrig newydd fydd yn un o'r gweithrediadau ffwrn dei agored mwyaf effeithlon yn Ewrop a'r mwyaf yn y DU.

Ers hynny mae'r llywodraeth wedi ehangu cwmplas y rhaglen. Cadarnhaodd y Canghellor yn Adolygiad Gwario 2025 dros £420 miliwn i ehangu capasiti â siop beiriannau newydd i gefnogi gwaith hanfodol yn rhan o gytundeb llongau tanfor AUKUS. At ei gilydd mae'r buddsoddiad hwn o dros £1.3 biliwn yn darparu hwb i'n galluoedd amddiffyn yn ogystal â sicrhau dros 700 o swyddi hirdymor yn y ddinas ddur.³²

Marcegaglia:

Marcegaglia Stainless yw prif gynhyrchwr dur gwrthstaen y DU gyda'i safle yn Sheffield a gwaith toddi EAF, gan gynhyrchu rhodenni a bariau dur gwrthstaen. Mae ganddo gysylltiad cryf â genedigaeth cynhyrchu dur gwrthstaen, a gafodd ei ddyfeisio gan Harry Brearly yn 1913 yn Sheffield. Mae'n buddsoddi £50 miliwn i adeiladu EAF newydd i uwchraddio ei safle presennol yn Sheffield yn 2026, gan gynyddu cynhyrchiant blyneddol y gwaith i dros 500,000 tonnall fetrig o gynhyrchion dur gwrthstaen.³³

Special Melted Products

Ym mis Gorffennaf 2025, cyhoeddodd Walsin Lihwa fuddsoddiad mawr yn ei ffatri Special Melted Products yn Sheffield, gan gyflwyno cyfelusterau newydd mewn deunyddiau awyrofod ac ynni, a chreu dros 200 o swyddi newydd erbyn 2028.³⁴

Cynhyrchu dur gwyrdd

Ni fydd sector dur y DU yn y dyfodol yr un peth â sector dur y gorffennol, na sector heddiw. Mae ffwrneisi chwyth y DU sydd ar ôl yn cyrraedd diwedd eu hoes weithredol, a bydd yn gynyddol aneconomaidd i gynhyrchwyr dur gynnal yr asedau hyn sy'n heneiddio. Wrth i'r seilwaith hwn gael ei ddisodli, bydd gwneud dur yn parhau i symud at ffurfiau o gynhyrchu sydd wedi'u datgarboneiddio, gan gydgyfeirio â'r realiti economaidd eglur a'n huchelgais i gyflawni Sero Net; wrth i alw am ddur gwyrdd godi gyda chwsmeriaid domestig a byd-eang yn dilyn eu nodau datgarboneiddio eu hunain, a dulliau allyrru carbon dwys megis ffwrneisi chwyth di-baid yn wynebu costau carbon cynyddol gartref a thramor. Er enghraifft, mae JCB wedi llofnodi Memorandwm o Ddealltwriaeth (MoU) gyda Tata Steel UK am gyflenwi dur gwyrdd o Bort Talbot ar ôl cwblhau ei gynlluniau trawsnewid.

Comisiynodd llywodraeth y DU y Sefydliad Prosesu Deunyddiau i gynnal [Adolygiad o Wneud Dur Gwreiddiol yn y DU](#) i asesu gofynion y DU ac opsiynau ar gyfer cynhyrchu haearn domestig sylfaenol yn y 2020au a 2030au. Mae'r adolygiad yn dod i'r casgliad mai o weithiau EAF y byddai'r ffurf fwyaf hyfwrdd o gynhyrchu dur wedi'i ddatgarboneiddio yn dod. Mae llawer o wledydd ledled Ewrop a Gogledd America yn dibynnu'n helaeth eisoes ar gynhyrchu seiliedig ar EAF. Mae EAF yn cynnig y buddion o ddatgarboneiddio a chynhyrchiant gwell, yn ogystal â hyblygrwydd cynyddol wrth ddiwallu ein hangenion dur cenedlaethol. Maen nhw hefyd yn llai dwys i'w rhedeg o ran cyfalaf a llafur. Mae'r adolygiad yn nodi er ei bod yn dechnegol bosibl cyflawni gostyngiadau o ran allyriadau carbon dwfn â chynhyrchu sy'n seiliedig ar ffwrneisi chwyth trwy

ddefnyddio dulliau Dal, Defnyddio a Storio Carbon (CCUS), mae nifer o heriau yn dod gyda hyn yng nghyd-destun presennol y DU. Byddai ôl-osod CCUS ar ffwrnais chwyth sy'n heneiddio yn dechnegol anodd, â chyfyngiadau effeithlonrwydd gweithrediadol a byddai'n golygu costau cyfalaf a gweithredu sylweddol ac nid yw wedi'i brofi'n fasnachol eto. Nid yw hyn yn golygu bod rhaid rhoi terfyn ar gynhyrchu gan ffwrneisi chwyth ar unwaith. Er mwyn diogelu cyflenwi mae'n hanfodol pontio mewn modd a reolir i sicrhau y cynhelir y gwaith o wneud dur ac y diogelir cydnerthedd economaidd. Adlewyrchir ein blaenoriaethu o sicrwydd cyflenwi gan ein hymyrraeth yn British Steel yn Ebrill 2025, yn unig weithredwr ffwrneisi chwyth y DU.

Bydd cynhyrchu wedi'i ddatgarboneiddio o'r math hwn hefyd yn cefnogi cynnydd tuag at Sero Net. Mae'r llywodraeth wedi ymrwmo i ddatblygu cynllun newydd ar gyfer datgarboneiddio diwydiannol lle bydd yn amlinellu ei hymagwedd ar gyfer sylfaen ddiwydiannol carbon isel cystadleuol yn y DU, gan sicrhau bod cyfleoedd twf yn cael eu sicrhau ochr yn ochr â gostyngiadau allyriadau. Bydd y trawsnewid parhaus i gynhyrchu gan EAF yn golygu defnydd cynyddol o ddur sgrap wedi'i ailgylchu, a chyflenwad sicr i'r dyfodol yn rhan o'r economi gylchol a lleihau dibyniaeth ar fwyn haearn a gorffen y defnydd o lo yn gyfan gwbl. Bydd sgrap yn dod yn nwydd llawer mwy gwerthfawr, ac rydym yn cymryd camau i sicrhau diwydiant dur sgrap ffyniannus, a chyflenwad sicr i'r dyfodol, gan gynnwys grŵp gwaith trawslywodraeth newydd ar sgrap o Fai 2026 ymlaen.

Er bod y gweithlu sydd ei angen i gefnogi cynhyrchu gan EAF yn edrych yn wahanol i hwnnw sydd gan ffwrneisi chwyth tradodiadol, mae'n bwysig sicrhau bod y trawsnewid yn un cyfiawn i weithwyr. Mae hyn yn golygu y dylai cynlluniau trawsnewid ystyried effaith colli swyddi

posibl, wrth gynyddu'r cyfleoedd ar gyfer swyddi newydd mewn sector sy'n wynebu'r dyfodol. Gwelwyd y dull hwn yn y pontio ym Mhort Talbot, ac mae'r llywodraeth wedi ymrwmo i barhau i ymgysylltu ag undebau llafur yn llais pwysig gweithwyr dur a chymunedau gwneud dur, wrth inni ailadeiladu diwydiant dur y DU.

Mae creu graddfeydd penodol o ddur yn gofyn am ychwanegu haearn sylfaenol at sgrap. Argymhellodd Adolygiad Sylfaenol o Wneud Dur y DU yn y tymor byr, y gall yr angen hwn gael ei ateb trwy fewnforion o haearn crai neu gynhyrchion DRI o lwybrau marchnad sefydledig. Yn y tymor hirach, er mwyn cyflawni Sero Net ac aros yn gystadleuol mewn marchnadoedd dur gwyrdd byd-eang, dylai haearn sylfaenol ddod o weithfeydd DRI wedi'u pweru gan nwy naturiol, gyda phontio wedi'i gynllunio i hydrogen. Bydd yr achos economaidd ynghylch a ddylai DRI gael ei gynhyrchu yn y DU yn dibynnu ar brisiau ynni, datblygiad y dyfodol o'r farchnad DRI fyd-eang, cemeg cyflenwadau sgrap a chynnydd o ran arloesi'r broses neu gynnyrch. Byddai cynhyrchu dur cynyddol y DU yn ei dro yn ysgogi angen helaethach am DRI fydd yn gwella'r achos busnes ymhelach ar gyfer buddsoddi mewn cynhyrchu DRI gartref. Rydym yn hyderus fod gan ein cwmnïau dur presennol fynediad diogel at y cyflenwadau angenrheidiol o gynhyrchion haearn a byddwn yn parhau i fonitro sicrwydd cadwyn gyflenwi. Dros amser gallai datblygu gallu DRI domestig, cefnogi trawsnewidiadau diwydiannol gwyrdd cystadleuol byd-eang ac archwilio partneriaethau masnachu gwyrdd newydd a phartneriaid cytadleuol dibynadwy gryfhau ein cydnerthedd a chefnogi'r trawsnewid i wneud dur carbon isel.

Yn ogystal â chyflenwi DRI gwyrdd, gall hydrogen chwarae rôl mewn datgarboneiddio rhai gweithrediadau ymhelach i lawr trwy gyfnewid tanwydd. Bydd y Strategaeth hydrogen sydd i ddod yn amlinellu gweledigaeth llywodraeth y DU ar gyfer datblygu'r economi hydrogen. Bydd y strategaeth yn nodi barn y llywodraeth ar ddefnyddio hydrogen mewn sectorau sy'n anodd eu trydaneiddio, ac a allai gynnwys rhai elfennau o gynhyrchu haearn a dur. Gall hydrogen felly gynnig llwybr i ateb targedau datgarboneiddio wrth ddiogelu hefyd ddiwydiannau a swyddi.

Astudiaeth Achos – Cynhyrchu Hydrogen a Dur

Yn 2024, sicrhodd 7 Steel gyllid o £13 miliwn o Gronfa Trawsnewid Ynni Diwydiannol DESNZ i gefnogi Prosiect HEM (Melin Ynni Hydrogen)³⁵ Bydd Prosiect HEM yn gosod ffwrnais newydd a'r holl seilwaith ar y safle i weithredu ar danwydd hydrogen 100% (neu unrhyw gyfuniad hyd at 100%) yn amodol aqr drefniadau cyflenwi hydrogen yn y dyfodol, gan ddileu yn y pen draw 17,655t/y flwyddyn o allyriadau CO2 Cwmpas 1. Mae'r prosiect hwn yn gosod y llwybr i 7 Steel ddod yn gynhyrchwr dur sero net cyntaf yn y DU.

Cyfleoedd ar gyfer cynyddu cynhyrchu dur domestig

Y tu hwnt i'r ffocws cychwynnol hwn ar sefydlogi'r sector, yn y tymor hirach, mae llywodraeth y DU yn credu bod potensial i'r gyfran gynhyrchu ddomestig gynyddu yn sgil cyfleoedd ar gyfer buddsoddiad newydd gan y sector preifat.

Er bod rhai cynhyrchwyr dur wedi dweud eu bod yn cael trafferth ag amodau galw isel ar gyfer rhai mathau o gynhyrchion, disgwylir i alw yn y DU am y mathau o ddur sy'n ofynnol mewn seilwaith a gweithgynhyrchu ehangach, megis adeiladu a chynhyrchu a dosbarthu ynni glân, dyfu yn y degawdau sydd i ddod.³⁶ Yn benodol, bydd angen cynyddol am fathau arbenigol o ddur sy'n hanfodol i'r sectorau sy'n ysgogi twf a nodwyd yn ein strategaeth ddiwydiannol,

ac a allai ddarparu cyfleoedd newydd i wneuthurwyr dur domestig. Disgwylir i'r galw am ddur gwyrdd godi hefyd, yn y DU yn ogystal â marchnadoedd allforio gan gynnwys yr UE, a manteision naturiol y DU, gan gynnwys helaethrwydd ein deunydd sgrap a'n symudiad tuag at ddatgarboneiddio cynhyrchu trydan ym Mhrydain, yn rhoi cyfle inni barhau ar y blaen i'r gystadleuaeth mewn cynhyrchu dur gwyrdd. Mae'r asesiad yn galw yn darparu un olwg o feysydd galw domestig nad ydynt yn cael eu hateb ar hyn o bryd trwy gynhyrchu domestig oherwydd bylchau gallu a chapasiti, ac a allai ddangos meysydd cyfleoedd buddsoddi

Asesiad Galw Strategaeth Ddur y DU


Cafodd ymgynghoriaeth annibynnol Hatch ei chomisiynu i asesu galw am ddur yn y DU yn y dyfodol adolygu galluoedd cynhyrchu presennol, a darparu dadansoddiad bylchau yn y gadwyn gyflenwi am alw na ellir ei ddiwallu trwy'r galluoedd hyn. Mae'n adnabod bylchau cynnyrch hefyd a datrysiadau technegol i lenwi'r [bylchau hynny](#).

Galw am Ddur a Ragwelir yn y DU, 2025 - 2050

Mae galw domestig sylweddol am ddur nad yw'n cael ei ateb ar hyn o bryd gan gynhyrchwyr domestig a disgwylir i'r fath alw dyfu dros y degawdau sydd i ddod. Mae Hatch³⁷ yn rhagfynegi cyfradd twf blyneddol ar gyfartaledd o 1.7%, o 9.1Mt yn 2025 i 14.0Mt yn 2050 wedi'i ysgogi gan dwf cyson mewn sectorau craidd megis adeiladu, moduro, peirianeg a gweithgynhyrchu, sy'n cyfrif am y rhan fwyaf sylweddol o gyfanswm galw'r DU am ddur. Mae Hatch hefyd yn rhagamcanu twf yn y tymor byr i ganolig wedi'i ysgogi gan dwf cyflym mewn sectorau craidd eraill a rhai sy'n dod i'r amlwg megis trosglwyddo ynni a rhwydweithiau dosbarthu, cerbydau trydan, gwynt, solar a niwclear – wedi'i ysgogi gan dargedau'r llywodraeth i gyrraedd Net Sero. Yn ogystal, erbyn 2050, ac yn unol â'n huchelgeisiau Sero Net, disgwylir i dros 90% o'r galw am ddur yn y DU fod am ddur gwyrdd.

Gofyn y DU am Ddur a Ragwelir

2025-2050, Miliwn tonnell



Ffynhonnell: Hatch, Asesiad Galw Strategaeth Ddur y DU, gweler Atodiad C

Yn seiliedig ar gymariaethau rhwng capasiti cynhyrchu domestig y dyfodol a amcangyfrifir a galw am ddur y DU 2050, mae'r asesiad galw yn dangos bod bylchau capasiti arwyddocaol mewn adrannau, yn ogystal â bylchau capasiti a gallu sylweddol mewn cynhyrchion plât a sribyn megis dur poeth wedi'i drochi a'i galfaneiddio a dur trydanol. Mae Hatch yn amcangyfrif bod y rhain yn darparu cyfleoedd marchnad uchel y gallai'r diwydiant elwa arnynt o bosibl, fydd â gwerth cronol o £93 biliwn rhwng 2025 a 2050.

Mae Hatch wedi nodi 14 datrysiad technegol posibl a allai gael eu mabwysiadu i lenwi'r bylchau hyn a gafodd eu nodi, sy'n amrywio o fuddsoddi tir llwyd ychwanegol, megis melin oer â chapasiti cynyddol ym Mhort Talbot, i fuddsoddi tir gwyrdd ar raddfa fawr mewn gweithfeydd newydd. Mae'r datrysiadau hyn yn enghreifftiau dangosol o feysydd twf posibl ac nid ydynt wedi cael eu hasesu am eu hyfywedd masnachol.

Am ragor o fanylion ar Asesiad Galw Strategaeth Ddur y DU, gweler Atodiad C.



Feifei Cui-Paoluzzo,
593764940

Rhan 2:

Yr amgylchedd busnes ar gyfer dur a gynhyrchir yn y DU

Er mwyn cynorthwyo ein safleoedd dur presennol ac annog rhagor o fuddsoddi preifat, mae llywodraeth y DU wedi cymryd camau i greu amgylchedd busnes mwy cefnogol; un mae cwmnïau dur yn gallu cystadlu'n well ynddo, sy'n eu diogelu rhag ymarferion masnachu annheg a'r risg o ollwng carbon, a darparu diogelwch a sicrwydd helaethach.

Mae llywodraeth y DU yn cydnabod y bydd cymorth ariannol uniongyrchol yn ofynnol i gyflawni ein nodau, ac rydym yn darparu hyd at £2.5 biliwn i gefnogi, ailadeiladu a moderneiddio diwydiant dur y DU.

Yn ogystal â'r cymorth i safleoedd presennol a restrir uchod, mae'r cyllid hwn yn cael ei ddarparu trwy amrediad o fecanweithiau ariannu a chyllido sydd ar gael i gefnogi buddsoddi yn sector dur y DU, yn fwyaf nodedig y [Gronfa Gyfoeth Wladol \(NWF\)](#). Mae gan yr NWF £5.8 biliwn o gyfalaf i'w ddyrannu dros y Senedd hon i bum is-sector ynni glân a gweithgynhyrchu uwch gan gynnwys dur ac mae'n cynnig amrywiaeth o gynhyrchion cyllid gan gynnwys dyled, ecwiti a gwarantau ar gyfer prosiectau cyfalaf dwys.

Mae'r camau hyn yn cynnwys:

- » Sicrhau bod gan y DU amgylchedd busnes sefydlog a chystadleuol
 - » Amddiffyn rhag gorgapapsiti byd-eang mewn dur
 - » Gostwng prisiau trydan
 - » Lliniaru'r risg o ollwng carbon
 - » Sicrhau cyflenwadau sgrap
 - » Datblygu gweithlu medrus ymhellach
 - » Cynnal ymchwil, datblygu ac arloesi sy'n arwain y byd
- » Creu cyfleoedd a thwf
 - » Cymorth cyllido
 - » Gwella mynediad at dir addas, cysylltiadau grid trydan a chaniatâd cynllunio
 - » Symbylu galw am ddur a gynhyrchir yn y DU

Gweithredu ar draws y gwledydd

Mae'n rhaid i ailadeiladu'r sector weithio ledled y DU, gan gefnogi'r amrediad o leoliadau ar gyfer gwneud dur, a'r cymunedau a gefnogir gan gynhyrchu dur. Gyda llawer o'r meysydd polisi sy'n effeithio ar gynhyrchu dur wedi'u datganoli, mae'r strategaeth hon yn amlinellu camau perthnasol a gymerwyd gan lywodraethau datganoledig, ochr yn ochr â'r hyn a gymerwyd gan lywodraeth y DU.

Y sector dur ehangach

Er mai'r flaenoriaeth uniongyrchol yw cynhyrchu dur yn y DU, rydym yn cydnabod bod y sector dur yn llawer ehangach, gan gwmpasu ailgylchu metel, ffurfio, dosbarthu, gweithgareddau gwneud a gweithgynhyrchu. Mae cwmnïau yn y gadwyn gyflenwi, sef busnesau bach a chanolig yn aml, sy'n darparu traean yn fras o gyflogaeth o fewn y sector, yn hanfodol i'r cyflenwad o ddur i gwsmeriaid, ac maen nhw'n ysgogi arloesedd a thwf. Bwriedir i lawer o'r polisiâu a amlinellir yn y strategaeth hon estyn y tu hwnt i gynhyrchwyr dur gorffenedig a bod o fudd i'r gadwyn gyflenwi ehangach gan gynnwys: diwygio caffael fydd yn ysgogi galw am ddur sydd nid yn unig yn cael ei wneud ond hefyd ei greu yn y DU; mynediad at gyllid trwy fecanweithiau gan gynnwys [Banc Busnes Prydain](#) a [Chyllid Allforio y DU](#) (UKEF); a buddion amgylchedd ymchwil, datblygu ac arloesi cryfach a mwy cydweithredol. Rydym hefyd wedi ymgynghori ar y Cynllun Cystadleurwydd Diwydiannol Prydeinig fydd yn darparu cymorth gyda phris trydan i ddiwydiannau gweithgynhyrchu sylfaenol yn y gadwyn gyflenwi.

Sicrhau bod gan y DU amgylchedd busnes sefydlog a chystadleuol

Amddiffyn rhag gorgapapsiti byd-eang mewn dur

Mae sector dur y DU yn hanfodol i ddio-gelwch y DU. Fel llawer o'n cynghreiriaid, effeithiwyd ar ddiwydiant dur y DU yn ddifrifol gan orgapasiti cyson byd-eang o ganlyniad i ymarferion masnachu annheg, gan gynnwys cymorthdaliadau sy'n ystumio'r farchnad. Heb weithredu, bydd y ddynmeg hon yn peryglu gallu'r DU i gynhyrchu dur ar adeg o gynnwrf byd-eang sylweddol, ac yn bygwth diogelwch ein gwlad.

Mae'r gwahaniaeth rhwng capasiti dur byd-eang a galw yn codi a disgwylir iddo gyrraedd 721 miliwn tonnall fetrig erbyn 2027 yn ôl yr OECD, sydd 13% yn fwy na chyfanswm capasiti cynhyrchu presennol gwledydd yr OECD yn unig.³⁸

Er yn fach mewn termau byd-eang, gall allforion o gynhyrchion dur fod o fudd sylweddol i economi'r DU, ar ôl cyfrannu £4.1bn yn 2024, a'r prif gyrch-fannau ar ei gyfer yw'r Undeb Ewropeaidd (67% o allforion) a'r Unol Daleithiau (7%).³⁹ Mae hyn yn dangos archwaeth eglur a pharhaol am ddur y DU. Fodd bynnag, mae cyd-destun gorgapapsiti byd-eang yn creu risgiau dirfodol i gynhyrchwyr dur y DU a diogelwch cadwyni cyflenwi dur y DU.

Mae gwledydd eraill wedi cyflwyno cyfyngiadau ar fewnforion dur, gan gyfyngu mynediad i'r farchnad. Sefydlodd yr Unol Daleithiau fesurau ar 8 Mawrth 2025, gweithredodd India amddiffyniad ar gynhyrchion dur penodol ar 21 Ebrill

a gosododd De Affrica dollau diogelu o 2 Mai ymlaen. Cyflwynodd Canada fesurau newydd ar 16 Gorffennaf, a chyhoeddodd yr Undeb Ewropeaidd fesurau dur newydd ar 7 Hydref. Mae'r DU yn fewnforiwr net o ddur ac mae mesurau posibl gan wledydd eraill yn cynyddu'r risg yn sylweddol o ddur wedi'i danbriso yn cael ei wro i farchnad y DU. Gallai hyn roi mwy o bwysau ar gystadleurwydd, proffidioldeb hyfywedd hir dymor sector dur y DU, ar adeg pan mae bygythiadau a heriau byd-eang sylweddol yn gofyn inni gynyddu ein gwariant amddiffyn, fel yr adnabuwyd yn yr Adolygiad Amddiffyn Strategol.

Mae cynnal mynediad domestig diogel at ddur yn hanfodol i gydnerthedd ac yn bwysig i gystadleurwydd ein diwydiannau ymhellach i lawr. Mae cyflenwad domestig effeithiol yn lleihau dibyniaeth ar fewnforion, gan sicrhau sefydlogrwydd a dibynadwyedd i gwsmeriaid dros y tymor hir. Mae'n helpu i leihau'r risg o godiadau prisiau a tharfu ar y gadwyn gyflenwi. Mae ganddo oblygiadau hefyd i'n seilwaith cenedlaethol critigol a diogelwch cenedlaethol, gan fod cyflenwadau dur yn angenrheidiol i gynnal galluoedd allweddol fel rheilffyrdd, seilwaith telegyfathrebu, a gweithgynhyrchu amddiffyn hanfodol ar adegau o argyfwng. Mae adeiladu cydnerthedd i fygythiau presennol a rhai'r dyfodol, megis tarfu ar gadwyn gyflenwi, yn flaenoriaeth i'r Strategaeth Ddiogelwch Genedlaethol. Rydym hefyd yn cydnabod y bydd fewnforion dur yn parhau i fod yn rhan bwysig o'n cadwyni cyflenwi. Amhosibl cyrchu pob cynnyrch oddi mewn i'r DU ac amhosibl cyflawni pob contract â dur a wneir yn y DU.

Mae llywodraeth y DU ar hyn o bryd yn defnyddio 16 mesur gwrthddympio, dau fesur gwrthgymhorthdal, ac amddiffyniad dur byd-eang ar 14 categori o ddur. O dan reolau Sefydliad Masnach y Byd, gall mesurau diogelu gael eu cymhwyso am uchafswm o wyth mlynedd yn unig felly bydd yr amddiffyniad dur yn dod i ben ar ddiwedd Mehefin 2026. Wrth inni edrych ymlaen, bydd llywodraeth y DU yn diogelu diwydiant dur y DU i sicrhau y gall gefnogi diogelwch cenedlaethol.

Mae'r DU wedi elwa ers amser maith o system fasnachu agored, ac rydym yn parhau i eiriol yn gryf dros fasnach rydd a theg. Mae gorgapasiti wedi cynhyrchu sefyllfa fregus i ddiwydiant dur y DU, ac mae'r sefyllfa hon yn parhau i waethygu. O ystyried hyn, rydym yn benderfynol o weithredu i ddiogelu gwneud dur domestig i sicrhau ein capasiti gwneud dur, sy'n hollbwysig i ddiogelwch cenedlaethol, amddiffyn a diwydiannau strategol eraill. Byddwn yn sefyll dros ddiwydiant y DU wrth i ni barhau i ymgysylltu'n rhyngwladol i ganfod datrysiad hirdymor cyffredin i'r broblem systemig hon.

Ymagwedd

Ym Mehefin 2025, lansiodd llywodraeth y DU alwad am dystiolaeth i gaffael barn ar fesurau masnachu dur y dyfodol gan arweinwyr busnes, arbenigwyr diwydiant, a chymdeithasau busnes o bob rhan o gadwyn gyfenwi dur, gan gydnabod yr angen i gynnal diogelwch y diwydiant hollbwysig hwn ar ôl i'r mesur diogelu dur ddod i ben ar ddiwedd Mehefin 2026. Cydnabu'r alwad am dystiolaeth yr angen i:

- » Ddiogelu diddordebau cenedlaethol
- » Hyrwyddo cystadleuaeth deg
- » Cefnogi twf yn y sector dur

Nododd yr ymatebion i'r alwad am dystiolaeth fod mesurau presennol yn darparu rhywfaint o ddiogelwch rhag ymchwyddau mewnfario, ond mae cwmpas yr amddiffyniad dur wedi cael ei ysgaru fwyfwy o'r mathau a manylbau o gynhyrchion dur a gynhyrchir ar hyn o bryd yn y DU. Dywedodd cynhyrchwyr dur ei bod yn debygol na fyddant yn hyfyw heb fesurau masnachu cryf yn y dyfodol. Ffariodd defnyddwyr ymhellach i lawr, ar y llaw arall, lai o ymyrraeth gan amlygu eu hangen busnes i sicrhau eu cadwyni cyflenwi.

Yr Ymyriadau

- » Byddwn yn cymryd **camau cadarn i ddiogelu cynhyrchu domestig**. Bydd ein mesur masnach dur newydd yn cyflwyno cwotáu cyfradd tariff â chyfeintiau sy'n sylweddol is na'r rheini o dan yr amddiffyniad dur, yn ogystal â chwotáu newydd ar gategorïau nad ydynt yn cael eu cwmpasu ar hyn o bryd gan yr amddiffyniad, gyda chyfradd tariff allan o gwota o 50%. Bydd y mesur yn cwmpasu'r holl gynhyrchion dur sy'n cael eu cynhyrchu yn y DU. Bydd yn berthnasol i bawb, gan gynnwys i bartneriaid FTA. Bydd y mesur yn dod i rym ar 1 Gorffennaf 2026, yn syth ar ôl i fesur amddiffyn dur y DU ddod i ben. Bydd y mesur yn cael ei gynllunio i sicrhau hyfywedd parhaol cynhyrchu dur domestig yn y DU, i ateb amcanion diogelwch y DU a bydd yn ystyried yr effaith ar gyflenwad i sectorau ymhellach i lawr. Rydym wedi bod yn ymgysylltu'n agos â diwydiant, gan gynnwys gwneuthurwyr dur a chynhyrchwyr ymhellach i lawr, ar fanylion y mesur hwn.
- » Gan gydnabod yr angen am ddatrysiad hirdymor i ddiogelu'r diwydiant, **rydym yn cychwyn proses Erthygl 28 yn y WTO** i gynyddu uchafswm tariffau dur ("rhwymedig") y DU. Bydd hyn yn rhoi'r hyblygrwydd inni godi ein tariffau perthnasol ar gyfer Gwlad a Ffeirir Fwyaf (MFN) yn y dyfodol hyd at 50%
- » Byddwn yn archwilio'r posibilrwydd o gyflwyno gofynion i nodi lle'r oedd mewnfurion dur yn cael eu toddi a'u tywallt. Gallai hyn helpu'r llywodraeth i ddeall ein cadwyni cyflenwi yn well a sicrhau bod diwydiant dur y DU yn cael ei ddiogelu'n well rhag gorgapasiti byd-eang.
- » Gan gydnabod bod gweithredoedd eraill i fynd i'r afael â gorgapasiti yn gallu effeithio ar ein sector dur ein hunain, rydym yn parhau'n ymrwymedig i fonitro ystumio masnach ac yn **eiriol dros weithredu rhyngwladol i fynd i'r afael â gorgapasiti ac ymarferion sy'n ystumio'r farchnad**. Felly, byddwn yn parhau i gydweithio'n agos â gwledydd o'r un meddwl, yn ddwyochrog ac ar draws gwahanol fforymau rhyngwladol, megis y Fforwm Byd-eang ar gyfer Capasiti Gormodedd o Ddur, i ddatblygu datrysiadau cyffredin i'r mater systemig hwn.
- » Bydd y llywodraeth hefyd yn archwilio camau posibl i ffurfio **cytundeb rhyngwladol ar ddur â rhai o'n partneriaid masnachu mwyaf**. Byddai hyn yn ceisio gwella trefniadau masnachu ar ddur gyda'n marchnadoedd mwyaf wrth diogelu ein diwydiant domestig rhag gorgapasiti a chynyddu diogelwch a chydnerthedd ein cadwyni cyflenwi.
- » Byddwn yn parhau i **hyrwyddo gallu ein diwydiant i allforio**, gan gydnabod ansawdd uchel dur a wneir yn y DU. Byddwn yn defnyddio ein Cytundebau Masnach Rydd i helpu i gadarnhau ein mynediad at farchnadoedd tramor. Lle mae gwledydd eraill yn cyfyngu'n annheg ar ein gallu i allforio, byddwn yn gweithredu i ganfod datrysiadau gyda phob opsiwn ar y bwrdd. Mae hyn yn golygu bod angen mynediad digonol i farchnadoedd ar gyfer cynhyrchion y DU, gan gynnwys i'r Undeb Ewropeaidd fel ein partner masnachu agosaf a mwyaf. Mae ein gweithredoedd wedi sicrhau canlyniadau eglur, diriaethol eisoes. Diolch i **gryfder Partneriaeth y DU-UD**, ym Mehefin 2025, dynododd yr Unol Daleithiau y DU fel yr unig wlad gymwys am dariff ffafriol 25% ar allforion dur, tra cafodd pob gwlad arall dariff cyffredin o 50%.⁴⁰

- » Gall allforwyr dur Prydain fanteisio ar y cynnig a ehangwyd gan [UKEF – asiantaeth credyd allforio'r DU](#). Mae UKEF yn darparu cyfalaf gweithio hyblyg i helpu cwmnïau'r DU i allforio dramor ac yswiriant credyd masnach i'w diogelu rhag methiant talu gan brynwyr. Yn rhan o'r strategaethau Diwydiannol a Masnach, mae UKEF wedi ehangu ei gapasiti o £20bn i £80bn i helpu rhagor o fusnesau,⁴¹ gan gynnwys y rheini yn y sector dur, i sicrhau contractau tramor trwy gynnig cyllid deniadol i'w prynwyr.
- » Byddwn ni'n parhau i ystyried pob rhan o farchnad fewnol y DU ac yn ceisio cynnal llifoedd esmwyth o ddur ar ei thraws. Bydd ein hymagwedd hefyd yn adlewyrchu ymrwymiad y Llywodraeth i atebion o dan Fframwaith Windsor, lle mae datrysiadau yn bodoli ar gyfer symud dur i Ogledd Iwerddon. Rydym wedi ymrwmo i sicrhau bod y trefniadau penodol hynny yn gweithio'n effeithiol i fusnesau a phobl ledled y DU gyfan.



Anton Petrus,
1997767003

Gostwng prisiau trydan

Mae prisiau trydan cystadleuol yn alluogwr cystadleurwydd pwysig yn y sector dur, yn enwedig wrth i gynhyrchwyr a sectorau ymhellach i lawr drawsnewid tuag at gynhyrchu dur gwyrdd wedi'i drydaneiddio. Yn yr ymgynghoriad strategaeth dur, dywedodd bron hanner yr ymatebwyr fod prisiau trydan uchel yn niweidio cystadleurwydd eu busnes (48%) neu'n atal buddsoddi yn y dyfodol (46%) Mae llywodraeth y DU yn cydnabod yr her mae prisiau trydan uchel yn eu creu ac mae'n cymryd camau i ostwng prisiau trydan ym Mhrydain.

Ymagwedd

O dan ein Gorchwyl Archbŵer Ynni Glân, mae gennym ni gynllun tymor hirach i gynyddu ein diogelwch ynni a lleihau biliau trydan trwy fuddsoddi mewn ynni glân a chryfhau ein cysylltiadau â marchnad ynni'r UE.

Ond er ein bod yn canolbwyntio ar drosi'r costau cyfanwerthu rhatach o ynni glân yn filiau is, rydym hefyd yn cydnabod yr angen i weithredu'n gyflym i gynorthwyo sectorau â photensial twf uchel neu sydd dan fygythiad sylweddol oherwydd prisiau trydan uchel. Mae'r strategaeth ddiwydiannol yn nodi mesurau i wneud trydan yn rhatach i ddiwydiannau gweithgynhyrchu yn wyth sector ysgogi twf y strategaeth ddiwydiannol a'n diwydiannau sylfaenol sy'n cynnwys dur.


Gyda'i gilydd, yn 2025 torrodd Uwchwefrwr British Energy a chynllun lawndal Eil gostau polisi ar filiau trydan cynhyrchwyr dur Prydain 93%.⁴² Mae prisiau trydan diwydiannol yn amrywio'n rhyngwladol. At ei gilydd, bydd y mesurau a nodir isod yn lleihau a sefydlogi prisiau trydan i'r sector dur gan fod o fudd i gynhyrchwyr dur presennol, buddsoddwyr newydd a chwmnïau ymhellach i lawr.

Yr ymyriadau

- » Bydd ein targed Ynni Glân erbyn 2030 yn dod â chyfnod newydd o annibyni-aeth ynni glân i mewn trwy drawsnewid i system drydan sy'n cynhyrchu o leiaf 95% o drydan Prydain o ffynonellau cartref glân. Byddant yn ein trawsnewid ni i ffwrdd o system ynni sy'n dibynnu ar danwyddau ffosil anwadal ac annibynadwy lle mae nwy yn pennu pris trydan y DU gan amlaf. Wrth i ni gyflwyno cynlluniau adnewyddadwy, byddwn ni'n gweld gostyngiad sylweddol mewn prisiau cyfanwerthu, y sylfaen ar gyfer adeiladu system ynni sy'n gallu dod â biliau i lawr, a hynny'n barhaol.
- » Yng Ngorffennaf 2025, cyhoeddodd llywodraeth y DU [Bapur Gwyn Adolygiad o Drefniadau'r Farchnad Drydan \(REMA\)](#) i ddarparu diweddariad ar y cam datblygu polisi. Cadarnhaodd y papur hwn y penderfyniad i ddewis Prisio Cenedlaethol Diwygiedig (RNP) yn hytrach na phrisio parthol. Mae RNP wedi'i gynllunio i ostwng biliau defnyddwyr trwy greu amgylchedd mwy deniadol ar gyfer buddsoddi, gan ostwng costau a chymhlethdod, a chefnogi'r gwaith amserol o ddarparu trydan newydd wedi'i gynhyrchu yn y lleoedd cywir. Bydd Cynllun Cyflawni Prisio Cenedlaethol Diwygiedig, sy'n amlinellu'r camau nesaf ar gynllunio a chyflawni, yn cael ei gyhoeddi yn y misoedd sydd i ddod.
- » Yn gyfochrog rydyn ni'n parhau i gyflwyno Uwchwefrwr Diwydiant Prydeinig yn fesur arwyddocaol i ddod â chostau ynni i fusnesau cymwys mewn sectorau strategol bwysig megis dur yn nes yn unol ag economïau mawr eraill. Mae'r mesurau hyn ar hyn o bryd yn arbed busnesau cymwys ar gyfartaledd tua £24 i £31 y MWh ar eu costau tyrdan⁴³ a bydd y cynnydd yn yr iawndal am gostau rhwydwaith o 60% to 90%, a gyhoeddwyd yn y strategaeth ddiwydiannol ac a ddarperir o 1 Ebrill 2026 ymlaen, yn gostwng prisiau trydan i ddefnyddwyr diwydiannol mawr o ryw £7 to10/MWh ychwanegol.

Prisiau trydan diwydiannol ar gyfer gwledydd amrywiol gan gynnwys cynlluniau rhyddhad pris ynni diwydianeiddio

2024, £ fesul MWh



Ffynhonnell: Diwydiannau dwys o ran ynni (Elis): Ymgynghoriad⁴⁴

Label siart: Mae'r siart hwn yn dangos prisiau trydan diwydiannol Prydain:

- heb gymorth Uwchwefwr
- gyda chymorth Uwchwefwr a'r cynllun iawndal taliadau rhwydwaith yn cynnig 60% o ryddhad a
- chyda cymorth Uwchwefwr a'r cynllun iawndal taliadau rhwydwaith yn cynnig 90% o ryddhad, lle asesir bod prisiau diwydiannol yn syrthio i £86 y MWh, ac mae'n eu cymharu a phrisiau trydan diwydiannol mewn gwledydd cystadleuol dethol.⁴⁵


» Bydd cynnwys allyriadau anuniongyrchol o fewn cwmplas y CBAM yn cael ei ohirio hyd 2029 fan cynharaf. Mae hyn er mwyn adlewyrchu cymorth parhaol i'r Cynllun Iawndal Diwydiannau Dwys o ran Ynni (EII). Mae hwn yn darparu iawndal ar gyfer costau anuniongyrchol ETS y DU a Chymorth Pris Carbon sy'n cael eu trosglwyddo i lawr trwy filiau trydan. Mae'r Cynllun yn lliniaru risg gollwng carbon, yn ogystal â chefnogi effeithlonrwydd ynni, datgarboneiddio, ac arloesi technegol.

- » Cyhboeddodd y Strategaeth Ddiwydiannol Gynllun Cystadleuwurwydd Diwydiannol Prydain (BICS), sef cynllun newydd fydd yn bodoli ochr yn ochr ag Uwchwefrwr British Energy a'r Cynllun lawndal EII. Bydd y cynllun o fudd i ddiwydiannau sylfaenol gweithgynhyrchu ar gyfer sectorau twf y strategaeth ddiwydiannol, a chadwyni cyflenwi diwydiannau gweithgynhyrchu sylfaenol, megis gwneuthurwyr dur. Cynhaliodd y llywodraeth ymgynghoriad yn ddiweddar ac mae meini prawf cymhwysedd i'w cadarnhau mewn ymateb gan y llywodraeth yn y man. Bydd busnesau cymwys yn cael eu heithrio rhag talu costau'r Rhwymedigaeth Ynni Adnewyddadwy, Tariffau Bwydo i Mewn a'r farchnad gapasiti, a allai leihau eu costau trydan tua £35 i 40/MWh.⁴⁶

Astudiaeth Achos: Effaith Cymorth gyda Phrisiau Trydan

Costau cynhyrchu Dur Crai ym marchnad y DU gyda Pholisïau'r Strategaeth Ddur

Blwyddyn gyfredol. £/t



Ffynhonnell: Dadansoddiad o Ymgynghoriad EEI Prisiau Trydan, gweler Atodiad B

Dangosir effaith gyffredinol cymorth llywodraeth y DU gyda phrisiau trydan gan saeth (l) yn y siart uchod. Mae'r cymorth yn lleihau prisiau trydan i gynhyrchwyr dur ar gyfartaledd o £168/MWh i £86/MWh, gan leihau'r costau cynhyrchu i EAFau o tua £40/t yn seiliedig ar ddur crai,⁴⁷ gan ddod â chostau EAF y DU i lefel debycach i'r rheini yn yr UE.

Mae cydrannau cost sylfaenol yn seiliedig ar Gostau TrawasnewidSero a Chynhyrchu Dur Byd-eang: Dadansoddiad set ddata cost ar lefel gwlad a gwaith, wedi'i haddasu i £GBP 2024. Mae'r adroddiad hwn a'r set ddata hon yn darparu amcangyfrifon o lefelau asedau cynhwysfawr o gostau cynhyrchu gweithfeydd dur yn fyd-eang, gyda 473 safle ar draws 13 gwlad wedi'u dadansoddi.

Gan nad yw'r DU yn wlad sydd wedi'i chynnwys yn yr adroddiad hwn, mae data cost sylfaenol yn seiliedig ar gostau EAF UE ar gyfartaledd o'r adroddiad Gwybodaeth TrawsnewidSero ac Effeithlonrwydd Byd-eang.

Oherwydd y newid mewn prisiau trydan ers cyhoeddi'r adroddiadau, mae costau trydan o'r set ddata trawsnewid sero wedi eu disodli gan ddefnyddio prisiau trydan o'r Ymgynghoriad Diwydiannau dwys o ran Ynni (EIs):⁴⁸ I wneud hyn, mae costau trydan £/MWh yn cael eu haddasu i £/t dur crai gan ddefnyddio ffactor dwyster ynni o 0.435 ar gyfer EAF a 0.178 ar gyfer ffwrneisi chwyth integredig. Daw'r ffactorau hyn o Ddur ar y Modelau Cost Net ac maen nhw'n unol a chyhoeddiadau eraill fel y rheini o MPI a JRC.

Yn y tymor hirach mae gennym gynllun o dan ein Gorchwyl Archbŵer Ynni Glân am bŵer, rhatach, sicrach, a glanach wedi'i gynhyrchu gartref.

Lliniaru'r risg o ollwng carbon

Wrth i'r DU symud at gynhyrchu dur wedi'i ddatgarboneiddio, mae risg o danseilio'r ymdrechion datgarboneiddio hyn trwy ollwng carbon sef symud cynhyrchu ac allyriadau cysylltiedig o un gwald i un arall oherwydd lefelau gwahanol o ymdrech datgarboneiddio trwy brisio carbon a rheoliadau hinsawdd.

Os na chaiff ei liniaru, gallai gollwng carbon weld ymdrechion datgarboneiddio'r DU yn arwain at ddadleoli allyriadau dramor i awdurdodaethau sydd â fawr ddim mesurau prisio carbon na rheoleiddio hinsawdd, yn hytrach na sicrhau gostyngiad go iawn mewn allyriadau byd-eang. Codwyd y risg ollwng carbon yn bryder yn ymgynghoriad y strategaeth ddur a 87% o gyfanswm yr ymatebwyr i'r ymgynghoriad yn amlinellu opsiynau gwahanol ar gyfer camau gweithredu cryfach ar ollwng carbon.

Mae'r sector wedi lleisio pryderon am y raddfa o ansicrwydd ynghylch gofynion ar gyfer CBAM yr UE, a ddechreuodd ar ei drefn derfynol o 1 Ionawr 2026 ymlaen. Cyhoeddodd llywodraeth y DU esboniwr CBAM yr UE yn ddiweddar i gynorthwyo busnesau i ddeall y broses a'r gofynion sy'n ofynnol. Gall busnesau'r DU hefyd gyrchu gweminarau rhad ac am ddim ar-lein ar reoliadau'r UE, fel CBAM yr UE, a [Gwasanaeth Cymorth Allforio](#) ehangach trwy business.gov.uk.

Ymagwedd

Mae llywodraeth y DU wedi ymrwymo i fynd i'r afael â gollwng carbon. Bydd llywodraeth y DU yn cyflwyno Mekanwaith Addasu Ffiniau Carbon y DU ar 1 Ionawr 2027. Er mwyn sicrhau trawsnewid teg a chymesur i'r gwaith newydd hwn o liniaru'r a ollyngir o dan Gynllun Masnachu Allyriadau'r DU (ETS), mae awdurdod ETS y DU wedi cadarnhau y bydd sectorau sydd wedi eu cynnwys yn CBAM y DU yn gweld eu dyraniadau rhad ac am ddim yn dirwyn i ben yn raddol. Bydd y dirwyn i ben yn dechrau'n raddol, gyda gostyngiadau cyfyngedig mewn dyrannu'n rhad ac am ddim yn ystod y blynyddoedd cynnar i roi amser i fusnesau addasu. Bydd cyflwyno CBAM y DU yn sicrhau y bydd cynhyrchion dwys o ran carbon, sydd wedi'u masnachu'n uchel o dramor yn wynebu pris carbon cymaradwy i'r hyn a fyddai wedi bod yn daladwy pe byddent wedi cael eu cynhyrchu yn y DU. Mae hyn yn golygu bod ymdrechion datgarboneiddio'r DU yn arwain at ostyngiad go iawn mewn allyriadau byd-eang yn hytrach na dim ond dadleoli allyriadau carbon dramor. Mae'r DU yn credu mai datrysiad rhyngwladol sydd orau yn achos gollwng carbon. Felly, ochr yn ochr â gweithredu CBAM y DU, mae'r DU yn gweithio gyda'n partneriaid rhyngwladol i ddatblygu ymagwedd gydlynol at ollwng carbon.

Mae llywodraeth y DU wedi clywed pryder gan ddiwydiant am y potensial i risg gollwng carbon i allforion y DU yn y dyfodol. Disgwylir i gymorth ehangach llywodraeth y DU i ddatgarboneiddio leihau'r risg o ollwng yn achos allforion wrth i gynhyrchu dur y DU ddatgarboneiddio'n gyflym. Bydd llywodraeth y DU yn parhau i asesu opsiynau i liniaru gollwng yn achos allforio, gan gynnwys trwy asesu'r ymagwedd a gymerir gan yr UE at ei risg gollwng yntau yn achos allforio.

Yr ymyriadau

CBAM y DU

- » Mae'r llywodraeth wedi deddfu ym Mil Cyllid 2025-26 i gyflwyno'r CBAM o 1 Ionawr 2027 ymlaen. Bydd cynnwys allyriadau anuniongyrchol o fewn cwrmpas CBAM y DU yn cael ei ohirio hyd 2029 fan cynharaf. Mae hyn er mwyn adlewyrchu cymorth parhaol i'r Cynllun lawndal Diwydiannau Dwys o ran Ynni (EII).
- » Bydd deddfwriaeth eilaidd ddrafft yn cael ei rhyddhau mewn dau gam, a'r cyntaf yn cael ei gyhoeddi ar 10 Chwefror ar gyfer ymgynghoriad technegol 6 wythnos, ochr yn ochr â hysbysiadau drafft fydd â grym cyfraith. Disgwylir i'r set olaf gael ei chyhoeddi yng Ngwanwyn 2026 fydd yn cwrmpasu manylion ar ffiniau system a'r monitro, yr adrodd a'r dilysu o allyriadau ar gyfer CBAM.
- » Bydd y llywodraeth yn parhau i gadw pob maes o gynllunio a gweithredu CBAM o dan adolygiad wrth i dystiolaeth newydd ddod i'r amlwg i adlewyrchu newidiadau i risg gollwng carbon yn ogystal â datblygiadau methodolegol a thechnolegol.

Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU (ETS y DU)

- » Lwfansau rhad ac am ddim a ddosberthir o dan ETSD y DU ar hyn o bryd yw'r brif ymagwedd at liniaru gollwng carbon, trwy ostwng yn effeithiol y pris carbon mae gweithredwyr yn ei dalu. Mae sectorau sydd mewn perygl o ollwng carbon, gan gynnwys y rheini yn y sector dur, yn gymwys i dderbyn lwfansau ETS rhad ac am ddim wedi'u mesur yn ôl safonau effeithlonrwydd. ⁴⁹
- » Mae Awdurdod ETS y DU wedi dod ag adolygiad i ben yn ddiweddar i'r ymagwedd at ddyraniadau rhad ac am ddim o 2027 ymlaen, i sicrhau bod cymorth yn cael ei dargedu'n well i'r sectorau dan y perygl mwyaf a bod newidiadau yn cael eu cyflawni'n gyfannol ochr yn ochr â pholisïau lliniaru gollwng carbon eraill fel CBAM y DU.⁵⁰ Mae'r prif benderfyniadau o ymateb yr Awdurdod i'r Adolygiad Dyrannu Am Ddim, yn cynnwys:
 - a. Rhoi'r opsiwn i weithredwyr eithrio blynyddoedd Covid anghynrychiadol o'u lefel gweithgarwch hanesyddol,
 - b. Cadw'r meincnodau presennol ar gyfer 2027, gyda'r bwriad mewn egwyddor o fabwysiadu gwerthoedd meincnod yr UE wedi'u diweddarau o 2028-2030

- c. Cadw'r ymagwedd bresennol at y rhestr gollwng carbon a chymhwysedd ar gyfer dyraniad rhad ac am ddim, a
 - d. Dod â dyraniadau am ddim i ben yn raddol i sectorau sydd wedi'u cynnwys yn Null Addasu Ffiniau Carbon y DU gan ddechrau yn 2027, ar yr adeg y cyflwynir CBAM gydag amacangyfrif o lwybr o 9 mlynedd er mwyn dod i ben. Bydd hyn yn sicrhau trawsnewid teg a chymesur. Er na fydd yr ymagwedd hon yn cwmpasu gollwng allforion, bydd llywodraeth y DU yn parhau i asesu opsiynau i liniaru gollwng allforion, gan gynnwys trwy asesu'r ymagwedd a gymerir gan yr UE i'w risg yntau o ran gollwng yn achos allforion.
- » Pwysleisiodd llawer o ymatebion i'r ymgynghoriad bwysigrwydd cydgyfeirio â System Masnach Allyriadau'r UE (ETS UE) Yn Uwchgynhadledd Arweinyddion y DU-UE ar 19 Mai 2025, cytunodd y DU a'r UE i weithio tuag at sefydlu cysylltiad rhwng marchnadoedd carbon y DU a'r UE. Mae llawer o fuddion i gytundeb cysylltu, gan gynnwys creu a chael mynediad at farchnad carbon fwy, dyfnach a mwy hylifol. At ei gilydd, byddai cysylltu ETS y DU a'r UE yn golygu llwybr mwy cost-effeithiol at Sero Net. Byddai'r cytundeb hwn hefyd yn creu'r amodau ar gyfer eithriadau CBAM ar y naill ochr â'r llall. Bydd llywodraeth y DU yn ceisio cytuno ar gysylltiad ETS cyn gynted ag y bo'n ddichonadwy, mae'r trafodaethau hyn wedi dechrau.



Monty Rakusen,
180404126

Sicrhau cyflenwadau sgrap

I wireddu'r buddion ar gyfer cynhyrchu dur seiliedig ar EAF, mae angen cadwyn gyflenwi dur sgrap gydnerth, cost-ef-feithiol ac o ansawdd uchel ar y DU. Bydd gallu'r sector ailgylchu metel i arloesi ac ateb galw sy'n dod i'r amlwg yn llunio cystadleurwydd dur a wneir yn y DU yn uniongyrchol.

Mae'r OECD yn rhagamcanu y bydd argaeledd sgrap byd-eang yn dyblu rhwng 2019 a 2050. Wrth i ragor o ranbarthau fabwysiadu dulliau EAF ar gyfer gwneud dur, bydd galw am sgrap yn codi, gan greu pwysau posibl ar y cyflenwad byd-eang. Mae gan y DU fantais gref: mae'n cynhyrchu oddeutu 10 i 11 miliwn tonnall fetrig o ddur sgrap y flwyddyn ond mae'n defnyddio tua 2.2 miliwn tonnall fetrig yn unig.⁵¹ Hyd yn oed gyda rhagolwg asesiad galw Hatch y gallai galw'r DU dyfu i 6.7 miliwn tonnall fetrig erbyn 2040, bydd gan y DU warged sylweddol o hyd, gan gynnig cyfle marchnad sylweddol.⁵²

Bydd galw am sgrap o ansawdd uchel (gweddillion isel) yn cynyddu'n sylweddol, gydag asesiad galw'r DU yn amcangyfrif y gallai galw domestig am y math hwn o sgrap godi 7 i 8 gwaith wrth i ddulliau EAF newydd gael eu gweithredu. Mae ateb y galw am sgrap o ansawdd uchel yn her

i'r sector ailgylchu metel, sy'n gofyn am uwchraddio sylweddol mewn prosesau ailgylchu. I gyflawni hyn, bydd angen i ailgylchwyr metel uwchraddio eu prosesau a thechnoleg mewn ffyrdd arloesol. Trwy ymatebion i'r ymgynghoriad, trafo-daethau bord gron, [mae'r adroddiad Dur Cylchol a gyhoeddwyd yn ddiweddar o'r Is-bwyllgor Dur Cylchol](#), a fforymau eraill, mae diwydiant wedi adnabod yr heriau tymor canolig canlynol mewn sicrhau digon o sgrap o ansawdd uchel ar gyfer galw disgwylidig y DU:

- » mae arloesi ac adnewyddu asedau yn dibynnu ar frachnad sy'n gweithio'n dda. Er gwaethaf ailgylchwyr medrus, mae ymatebion i'r ymgynghoriad ar y strategaeth dur yn rhybuddio y gall rheoliadau presennol rwystro mynediad at sgrap o ansawdd uchel a chyfyngu ar wneud y defnydd gorau o beiriannau rhwygo.
- » Mae gwneuthurwyr dur yn ofni y gallai ymarferion masnachu cyfyngol o wledydd eraill ystumio prisiau a tharfu ar y cyflenwad byd-eang, gan effeithio ar argaeledd a chystadleurwydd sgrap y DU. Gallai cylchdroi domestig helae-thach gynnig diogelu, ond mae angen rhagor o ddadansoddi.
- » mae ailgylchwyr yn awgrymu lleihau allforion cerbydau i wella llifoedd sgrap y DU trwy gyfeirio rhagor o gerbydau ar ddiwedd oes at iardiau domestig.

- » ochr yn ochr â'r systemau adfer ac ailgylchu gorau, mae cyfleoedd hefyd i dyfu marchnadoedd ym maes ailddefnyddio dur. Er enghraifft, mae modelau busnes addawol ar gyfer dur strwythurol wedi'i ailddefnyddio mewn adeiladau, sy'n gallu helpu i leihau ôl troed carbon gwaith adeiladu. Archwilir y cyfleoedd hyn ymhellach yn y cynllun twf economi cylchol sydd i ddod.

Ymagwedd

Trwy'r ymgynghoriad, mae rhanddeiliaid ar draws y sectorau dur ac ailgylchu yn cydnabod ein galluoedd ailgylchu o safon fyd-eang (fel y gwna'r Strategaeth Mwynau Critigol a gyhoeddwyd yn ddiweddar). Fodd bynnag, dyma nhw hefyd yn nodi amrediad o rwystrau rheoleiddiol, ariannol, a gweithredol ynghylch cyflenwadau'r dyfodol o sgrap o ansawdd uchel. Roedd y rhain yn cynnwys galwadau am gymhellion ariannol wedi'u targedu, safonau ansawdd wedi'u cryfhau a dulliau gorfodi, a chymorth i ddatblygu technoleg arloesol ar gyfer didoli a phrosesu metel sgrap. Er bod y cynigion hyn yn cynnig buddion posibl, mae galwadau am ddiwygio rheoleiddiadau hefyd yn creu heriau y mae'n rhaid eu hasesu'n ofalus.

Yr ymyriadau

- » Bydd llywodraeth y DU yn ffurfio grŵp trawslywodraeth erbyn Mai 2026 yn cynnwys: yr Adran Fusnes a Masnach (DBT), yr Adran Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (DEFRA), yr Adran Diogelwch Ynni a Sero Net (DESN), adrannau eraill, a llywodraethau datganoledig, i werthuso cynigion, ac ymgysylltu â chynrychiolwyr o ddiwydiant, undebau, academia, a rhanddeiliaid eraill o fusesau cyflenwyr a defnyddwyr o bob rhan o'r farchnad, i sicrhau cyflenwad cynaliadwy o sgrap o ansawdd uchel ar gyfer y sector dur domestig. Ei fandad fydd:
 - » darparu fforwm strwythuredig ar gyfer ymgysylltu parhaol a datblygu polisi ar sail tystiolaeth
 - » asesu'r amodau rheoleiddiol a rhai'r farchnad sydd eu hangen i gefnogi arloesedd a buddsoddiad
 - » Mynd i'r afael â'r rhwystrau perthnasol rhag datblygu cadwyn gyflenwi sgrap domestig o ansawdd uchel.



Monty Rakusen,
169264319

Datblygu gweithlu medrus ymhellach

Cyflogir bron 40,000 o bobl ar draws y diwydiant dur yn y DU, gan gwmpasu rolau cynhyrchu yn ogystal ag arbenigwyr mewn peirianeg crefft, cymorth technegol, logisteg a sgiliau busnes ehangach mewn cynhyrchwyr dur gorffenedig a sectorau ymhellach i lawr. Amlygodd atebion i ymgynghoriad y strategaeth ddur, ynghyd a phwyntiau a godwyd mewn cyfarfod bord gron rhanddeiliaid, amrediad o heriau y mae cynhyrchwyr dur yn eu hwynebu. Roedd pryderon yn cynnwys gweithlu yn heneiddio, colledion swyddi diweddar ac ansicrwydd swyddi, a phryderon dros newid technoleg ac unigolion medrus yn symud i sectorau eraill y canfyddir eu bod yn cynnig cyflogaeth fwy sefydlog.

Mae cynhyrchu dur yn esblygu, a bydd angen i faint a strwythur y gweithlu addasu. Mae gweithfeydd modern, effeithlon a gynlluniwyd i gystadlu'n genedlaethol ac yn fyd-eang yn galw am amrediad amrywiol o rolau medrus iawn, ond bydd y rhain yn wahanol i'r rheini sy'n ofynnol ar gyfer cynhyrchu mewn ffwrneisi chwyth traddodiadol a bydd yn debygol o gynnwys gweithlu llai o faint. Er mwyn paratoi, mae'n rhaid inni adeiladu piblinell gref o dalent, gan sicrhau bod pobl ifanc yn parhau i adael addysg gyda'r sgiliau a'r uchelgais i ffynnu yn y sector dur.

Rydym yn parhau'n ymrwymedig i'n gweithlu dur presennol ac yn cefnogi ailsgilio, gan gynnwys, pan fo angen, y tu allan i'r diwydiant dur pan mae trawsnewidiadau cwmnïau unigol yn golygu nad oes dewis arall. Gwelwyd hyn yn y trawsnewid i gynhyrchu seiliedig ar EAF ym Mhort Talbot, lle mae Tata Steel yn buddsoddi £20 miliwn yn y gweithlu a'r rhanbarth ehangach yn ystod y broses drawsnewid. Mae £102 miliwn wedi cael ei ddrynnu gan y llywodraeth i gynorthwyo unigolion, busnesau a phrosiectau adfywio. Mae gan ein Hundebau Llafur hanes cadarnhaol o gynorthwyo a chynghori gweithwyr trwy drawsnewidiadau y gobeithiwn y byddant yn parhau i'r dyfodol.

Trwy gynlluniau megis y [Cadetiaid Diwydiannol](#), gallwn ysbrydoli pobl ifanc i archwilio gyrfaoedd cyffrous mewn dur, gan gynnig profiad ymarferol, mentora, a llwybrau clir i mewn i'r diwydiant. Wrth i'r sector sefydlogi bydd yn dod yn lle cynyddol ddeniadol a chyffrous i bobl ifanc weithio wrth iddynt adael addysg. Mae cwmnïau yn gweld diddordeb yn tyfu wrth iddynt fuddsoddi yn eu rhaglenni gyrfaoedd cynnar, a Sheffield Forgemasters yn adrodd bod nifer y ceisiadau i'w rhaglen gyrfa gynnar yn 2025 yn llawer mwy na'r 21 rôl oedd ar gael, gan ddangos poblogrwydd gyrfaoedd galwedigaethol gwerth uchel, a'r llwybr prentisiaeth i waith. Mae adeiladu gweithlu'r dyfodol hefyd yn cynnig cyfleoedd i sefydlu amrywiaeth a chynhwysiant helaethach, gan sicrhau ein bod yn gweithio i ddod â'r rhai gorau a mwyaf disglair i mewn i'r diwydiant dur.

Ymagwedd

Trwy gynyddu cystadleurwydd a denu buddsoddiad cynyddol mewn cynhyrchu dur domestig, yn enwedig mewn technolegau wedi'u datgarboneiddio sy'n wynebu'r dyfodol, bydd y strategaeth hon yn cefnogi'r diwydiant dur i barhau i gynnig gyrfaoedd cyffrous, sefydlog, hirdymor ac o ansawdd uchel gyda chynhyrchwyr dur ac yn eu cadwyni cyflenwi.

Mae'n rhaid inni fod yn rhagweithiol wrth ddenu ac adeiladu gweithwyr proffesiynol medrus sy'n gallu cyflawni'r rolau hyn ac elwa ar y cyfleoedd twf yn y sector, gan ddechrau yng nghyfnodau uwchradd addysg. Ni all y llywodraeth gyflawni hyn ar ei phen ei hun, a bydd angen camau cydweithredol o bob rhan o'r diwydiant, gan weithio'n agos gyda sefydliadau addysg a darparwyr i ddarparu piblinell y dyfodol yn effeithiol.

Dylai hyn adeiladu ar y gwaith mae asiantaethau sgiliau cenedlaethol, awdurdodau lleol, a llywodraethau datganoledig yn ei wneud eisoes, gyda chymorth gan sefydliadau addysgol a'r trydydd sector. Mae'r dulliau ar gyfer cyflawni sgiliau yno eisoes mewn llawer o feysydd: yr her yw sicrhau cydlynw digonol i gyflawni yn y ffordd orau o gynorthwyo twf y diwydiant. Byddwn yn parhau i gydweithio'n agos â llywodraethau datganoledig i gyflawni cymorth ledled y DU lle mae polisi sgiliau perthnasol wedi'i ddatganoli.

Yr ymyriadau

- » Trwy'r Cyngor Dur, byddwn yn gweithio i wella'r cydweithio rhwng diwydiant, llywodraeth, a'r trydydd sector, gan ddod â chynrychiolwyr a'r arbenigedd sydd ei angen ynghyd i fynd i'r afael â gofynion gweithlu'r sector. Y nod fydd i ddatblygu camau ymarferol i fynd i'r afael â heriau presennol, adeiladu piblinell sgiliau gadarn ar gyfer y dyfodol, ac amrywiaeth gynyddol gweithlu.
- » Mae'r papur gwyn addysg a sgiliau ôl-16, a gyhoeddwyd yn Nhachwedd 2025, yn amlinellu cynlluniau llywodraeth y DU i ddiwygio'r system addysg a sgiliau ôl-16 yn Lloegr i ateb anghenion yr economi, cau bylchau sgiliau a chefnogi twf.
- » Bydd Skills England yn dod â chydlyniant helaethach i'r cynnig sgiliau cyffredinol, gan wneud y system sgiliau yn gliriach ac yn haws i'w llywio i gyflogwyr, gan gynnwys y rheini yn y sector dur. Bydd yn gweithio gyda busnesau i benderfynu beth dylai'r blaenoriaethau fod ar gyfer eu sector a sut i hybu buddsoddiad ynddynt.
- » Mae'r llywodraeth hefyd yn trawsffurfio'r ardoll prentisiaethau i mewn yn ardoll twf a sgiliau newydd yn Lloegr. fydd yn cynnig hyblygrwydd helaethach i gyflogwyr i gyrchu'r hyfforddiant y bydd ei angen arnynt, gan gynnwys y rheini yn y sector dur, a chefnogi rhagor o gyfleoedd i bobl ifanc. Yn Awst 2025, cyflwynodd y llywodraeth brentisiaethau sylfaen newydd i bobl ifanc, yn ogystal â phrentisiaethau cyfnodau byrrach. O Ebrill 2026 ymlaen, byddwn yn cyflwyno cyrsiau byrion newydd (unedau prentisiaeth) mewn sectorau hollbwysig megis deallusrwydd artiffisial, y maes digidol a pheirianeg, fydd yn helpu cyflogwyr i ymateb yn gyflym i anghenion sgiliau sy'n esblygu. Bydd yr Adran Gwaith a Phensiynau yn parhau i weithio gyda Skills England a chyda busnes i ddatblygu'r ardoll twf a sgiliau.
- » Mae Skills England yn arolygu'r ail rownd o Gynlluniau Gwella Sgiliau Lleol yn Lloegr, sy'n anelu at gau bylchau yn y gweithlu ac sy'n helpu economïau lleol i dyfu. Datblygir y cynlluniau hyn gan Gyrff Cynrychioladol Cyflogwyr dynodedig (ERB), yn gweithio gydag Awdurdodau Strategol lle maent mewn grym. Mae'r cynlluniau lleol hyn yn darparu canfyddiad manwl o anghenion sgiliau ar draws ardal benodol – o gynorthwyo pobl i fynd i mewn i waith a symud ymlaen mewn cyflogaeth, trwodd i lefel 8 ôl-raddedig – a'r camau sy'n ofynnol i'w diwallu. Bydd y gwaith yn cynnwys llawer o randdeiliaid allweddol gan gynnwys Canolfan Byd Gwaith
- » Wrth i drawsnewidiadau penodol i safleoedd barhau, gan ddod ag angen am ailsgilio a chymorth ehangach i'r gweithlu, darperir cymorth arbennig mewn cydweithrediad â phartneriaid a chwmnïau rhanbarthol, i sicrhau bod unrhyw drawsnewid yn drawsnewid cyfiawn, fel y gwelwyd ym Mhort Talbot.

Camau a gymerwyd gan lywodraethau datganoledig

- » Yng Nghymru, mae cyfrifoldeb dros bolisi sgiliau wedi'i ddatganoli i Lywodraeth Cymru. Amlinellir blaenoriaethau sgiliau presennol i Gymru yn [Cymru gryfach, decach a gwyrddach: cynllun cyflogadwyedd a sgiliau \(2022\)](#); y [Cynllun Gweithredu Sero Net \(2023\)](#) a [Datganiad Polisi Prentisiaethau Cymru \(2024\)](#).
- » [Mae Medr, y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil newydd i Gymru](#), yn gyfrifol am gyllido a rheoleiddio'r sector addysg drydyddol ac ymchwil ac am gyflawni'r rhaglen prentisiaethau yng Nghymru.
- » Mae llywodraeth Cymru hefyd yn cyllido'r [Rhaglen Sgiliau Hyblyg](#) (£7.5m ar gyfer 2025-26) sy'n darparu cyllid grant 50 y cant i fusnesau i gefnogi eu hanghenion uwchsgilio ac ailhyfforddi. Mae Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol yng Nghymru yn nodi blaenoriaethau sgiliau rhanbarthol wedi'u llywio gan farn cyflogwyr ac yn hyrwyddo Addysg a Hyfforddiant Galwedigaethol, wedi'i nodi mewn cynlluniau cyflogaeth a sgiliau a gyhoeddir bob tair blynedd ac a adnewyddir yn flynyddol.
- » Bydd llywodraeth Cymru yn ymgymryd yn y man ag archwiliad sgiliau cenedlaethol fydd yn rhoi dealltwriaeth eglurach o weithlu Cymru ac anghenion sgiliau a sut y cynorthwyr gyda hynny trwy weithgareddau o du cyflenwi mewn addysg a hyfforddiant. Mae gweinidogion Cymru hefyd wedi ymrwmo i ddatblygu Strategaeth Addysg a Hyfforddiant Galwedigaethol newydd i Gymru
- » Mae llywodraeth yr Alban hefyd yn mynd ati i gynllunio ynghylch sgiliau ar lefel genedlaethol, gan flaenoriaethu sgiliau sy'n uniongyrchol gysylltiedig a galwedigaethau penodol, wrth gydnabod y rôl hanfodol mae sgiliau craidd a meta yn eu chwarae wrth gynorthwyo gyda dilyniant a chyflogadwyedd. Mae dull unedig gyda Skills Development Scotland a Chyngor Cyllido'r Alban, yn ategu ymrwymiad parhaol i hyblygrwydd, cydweithio, ac atebolrwydd rhanbarthol.
- » Nodir sectorau blaenoriaeth yn yr Alban yn y [Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Trawsffurfio Economaidd](#), y [Strategaeth Ddiwydiannol Werdd](#) a'r [Strategaeth Arloesi Genedlaethol](#). Yn ogystal, mae [Rhaglen Lywodraeth llywodraeth yr Alban](#) yn cydnabod yr angen am ymyriadau tymor byr i fynd i'r afael â heriau sgiliau mewn sectorau economaidd blaenoriaeth, ochr yn ochr â diwygio tymor hirach i'r System Cynllunio Sgiliau.

Ymchwil, datblygu ac arloesi sy'n arwain y byd

Mae dur yn ddiwydiant technolegol ddwys, un sy'n esblygu'n barhaus, ac un y mae angen arloesi wrth ei galon. O'r Chwyldro Diwydiannol i'r cyfnod modern, bu gan y DU hanes cryf o ddatblygu prosesau newydd a thechnolegau cynhyrchion sydd wedi mynd ymlaen i ddod yn safonau byd-eang. Mae gennym seilwaith ymchwil sy'n arwain y byd a'r sylfaen wybodaeth gyfatebol o wyddonwyr, peirianwyr ac entrepreneuriaid i droi'r syniadau cywir yn llwyddiant masnachol.

Mae ymchwil, datblygu ac arloesi (RD&I) parhaol yn hollbwysig i lwyddiant diwydiant yn y dyfodol. Wrth i'r sector barhau i ddatgarboneiddio mae'n creu cyfleoedd i ddatblygu a mabwysiadu syniadau newydd ac arloesol. Ffocws craidd yn y blynyddoedd i ddod fydd gwthio'r ffiniau o'r hyn y gall prosesau presennol eu cynhyrchu yn ogystal â datblygu dulliau newydd o wneud dur. Mae gan dechnolegau i awtomeiddio a digideiddio'r sector hwn, megis AI, botensial uchel i hybu effeithlonrwydd prosesau a byrhau cylchoedd datblygu cynnyrch. Yn ategu hyn, mae yr un mor bwysig creu cyflenwadau sefydlog o'r deunyddiau cywir a diffiniadau a safonau graddfa wedi'u diweddarau.

Dros y ddau ddegawd diwethaf, fodd bynnag, rydym wedi clywed bod cwmnïau wedi lleihau eu gwariant ar ymchwil, datblygu ac arloesi. Mae hyn wedi cynnwys lleihau maint buddsoddiadau, colli gwybodaeth dechnegol ac ailgyfeirio neu leihau gwariant. Mae'n duedd y mae angen ei gwrthdroi gyda chwmnïau yn buddsoddi yn eu dyfodol. Rhestrod ymatebion i'n hymgyngoriad gyllid a chydweithio cynyddol rhwng diwydiant ac academia cynyddol yn alluogwyr

yn hyn o beth. Trwy'r broses o ddatblygu'r strategaeth hon, ac mewn bord gron diwydiant yn ddiweddar, clywyd ar brydiau fod diffyg cyd-fynd rhwng anghenion diwydiant a sefydliadau ymchwil nad ydynt yn gwneud defnydd effeithiol o adnoddau.

Ymagwedd

Mae ar sector dur y DU angen i gwmnïau a sefydliadau ymchwil weithio gyda'i gilydd ar ddyfodol uchelgeisiol neu mae'r DU mewn perygl o gael ei gadael ar ôl. Byddwn yn ceisio hwyluso cydweithio gwell i sicrhau bod adnoddau yn cael eu canolbwyntio ar weithgarwch sy'n galluogi cwmnïau'r DU i ddatblygu a ffynnu orau. Rydym yn cydnabod mai ein cwmnïau bach, yn aml, sy'n gweithredu'n gyfan gwbl ar draws y gadwyn gyflenwi, yw'r rhai mwyaf arloesol ac rydym am iddynt chwarae rhan lawn.

Mae buddsoddi mewn ymchwil, datblygu ac arloesi yn hollbwysig a dylai'r buddsoddi hwnnw ddod i raddau helaeth o'r sector preifat. Bydd llywodraethau'r DU a datganoledig, ochr yn ochr â'n cyrff cyllido cyhoeddus, yn parhau i gefnogi prosiectau a rhaglenni trwy ddarparu amrediad o opsiynau cyllido sy'n agored i gwmnïau dur, gan gynnwys cyfleoedd i ffurfio partneriaethau â chyflenwyr a chwsmeriaid mewn meysydd blaenoriaeth.

Yr ymyriadau

- » Mae ein haelodaeth o [Horizon Europe](#) yn caniatáu i sefydliadau'r DU gan gynnwys cwmnïau dur gael mynediad llawn at gronfa ymchwil fwyaf y byd. Rydym yn cydnabod bod cystadleuaeth fawr am y cyllid hwn, yn aml, ond mae budd sylweddol i'w gael. Mae Horizon Europe yn werth dros £80 biliwn ac mae'n rhedeg rhwng 2021 a 2027.⁵³
- » O fewn cynlluniau'r sector strategaeth ddiwydiannol, mae gan gynhyrchwyr dur y cyfle i sefydlu prosiectau ar y cyd i fanteisio ar gyllid wedi'i dargedu, gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i'r £2.8 biliwn ar gyfer ymchwil, datblygu ac arloesi yn y cynllun uwch gweithgynhyrchu.⁵⁴
- » Mae [Innovate UK](#), asiantaeth arloesi genedlaethol y DU, a'r [Cyngor Ymchwil Peirianeg a Gwyddoniaeth Ffisegol \(EPSRC\)](#) yn parhau i gefnogi prosiectau lefel gynnar a chanolig lefel Parodrwydd Technegol (TRL).
- » Trwy'r ERPSRC, mae llywodraeth y DU yn darparu £11 miliwn i Brifysgol Abertawe fel rhan o raglen ymchwil 7 mlynedd o'r enw IGNITE. Eu nod yw cynnal gwaith Ymchwil a Datblygu cydweithredol â phartneriaid gan gyfrannu £9.9m eu hunain ynghyd a'r gadwyn gyflenwi dur lawn i hybu cydnerthedd mewn meysydd allweddol (megis amddiffyn) a lleihau allyriadau yn gyffredinol.
- » Mae prosiectau TRL cyfnod diweddarach yn gallu ymgysylltu â Banc Busnes Prydain a'r Gronfa Gyfoeth Wladol. Mae cylchoedd gorchwyl y ddau sefydliad wedi eu cynyddu yn rhan o'r strategaeth ddiwydiannol fodern.
- » Trwy'r Cyngor Dur byddwn yn gweithio i gynyddu'r cydweithio rhwng sefydliadau ymchwil a chwmnïau dur. Gan weithio gyda phartneriaid diwydiant paratoir cynnig ar gyfer ffrwd waith i gydlynu gweithgareddau ymchwil, datblygu ac arloesi â'r nod o weithredu datrysiadau ymarferol i wella cystadleurwydd diwydiant. Bydd y gwaith hwn yn dwyn y gymuned ymchwil a diwydiant ynghyd, gan gynnwys partneriaid yn y gadwyn gyflenwi.

Camau a gymerwyd gan llywodraethau datganoledig

Mae Strategaeth Arloesedd Llywodraeth Cymru, Cymru'n Arloesi, yn cynnwys neges gref i'r ecosystem ymchwil, datblygu ac arloesi gyfan yng Nghymru i gydweithio i drosoli cyllid helaethach gan UKRI, Innovate UK a'r cynghorau ymchwil eraill.

Y nod yw cynyddu cyfran Cymru o gyllid y DU a ddyfernir yn gystadleuol, ac rydym yn parhau'n ymrwymedig i annog a chefnogi mwy o gynigion Cymreig i gystadlaethau Innovate UK.

Mae Cymorth Arloesi Hyblyg SMART Llywodraeth Cymru yn darparu cymorth arloesi ledled Cymru i gefnogi'r gwaith o ddatblygu'r economi ac mae ar gael i sefydliadau sefydledig wedi'u lleoli yng Nghymru sy'n dymuno cymryd rhan a buddsoddi mewn ymchwil, datblygu ac arloesi (RD&I).

Mae Strategaeth Arloesi'r Alban yn amlinellu cynllun uchelgeisiol i gynyddu lefelau arloesi ledled yr Alban. Mae'r Strategaeth yn nodi camau sydd wedi'u hanelu at ddefnyddio arloesi fel ysgogwr i dyfu'r economi a chreu swyddi mewn meysydd o gryfder: trawsnewid ynni; gwyddorau iechyd a bywyd; gweithgynhyrchu uwch; a defnyddio technolegau data a digidol

Mae gan Strategaeth Arloesi Genedlaethol yr Alban ffocws ar adeiladu clystyrau diwydiannol, cryfhau ymchwil a datblygu, a chefnogi masnacheiddio, a darpara fap trywydd ar gyfer moderneiddio diwydiannau ac ysgogi twf economaidd cynaliadwy.

Mae llywodraeth yr Alban wedi ymrwymo i sefydlu'r Alban yn un o brif wledydd dechrau busnes, gan feithrin arloesi a chyflymu twf economaidd. Mae hyn yn cynnwys:

- » Ehangu cyfleoedd ar gyfer clystyrau gwerth uchel gyda £5 miliwn a ddarparwyd i gynorthwyo diwydiannau twf uchel yr Alban.
- » Buddsoddi bron £3 miliwn trwy gronfa prawf cysyniad i gynorthwyo ymchwilwyr i ddatblygu eu syniadau a thechnolegau arloesol a phontio'r bwlch rhwng ymchwil arloesol a dyfeisiau masnachol⁵⁵.
- » Sefydlu Uwch Glwstwr Technoleg Ddofn i gynorthwyo cwmnïau ar eu taith i weithgynhyrchu ar raddfa.
- » Sefydlu Cyngor Technoleg yr Alban i ddarparu canfyddiad arbenigol o'r cyfleoedd a'r heriau sy'n wynebu ein sector technoleg.
- » Lansio rhaglen AI yr Alban, gan gynnwys cynllun peilot ar gyfer Mentrau Bach a Chanolig sy'n lleoli'r Alban yn grëwr a chyflenwr technolegau AI.

Astudiaeth Achos – Trawsffurfio ansawdd materol trwy optimeiddio wedi'i ysgogi gan Al

Mae Prifysgol Abertawe a Tata Steel UK wedi datblygu fframwaith optimeiddio newydd wedi'i alluogi gan Al i wella cynhyrchu yng Ngwaith Dur Port Talbot. Mae'r prosiect ymchwil cydweithredol, a noddwyd trwy'r Ganolfan Ymchwil Material Made Smarter a Hyb SUSTAIN, wedi arwain at ostyngiad o 86% yn y coiliau nad oeddent yn iawn y tro cyntaf ar gyfer cynhyrchion dur graddfa tiwb.⁵⁶

Mae'r Felin Stripiau Poeth (HSM) ym Mhort Talbot yn cynhyrchu dur strip gyda mesurydd (Trwch) yn amrywio o 1.50mm i 17.00mm. Dylanwadir yn drwm ar nodweddion mecanyddol y strip gorffenedig gan y broses oeri, ac mae'n rhaid penderfynu ar broffil hwnnw cyn prosesu gan beiriannydd fesul math o gynnyrch Mae'r drefn optimeiddio newydd yn lleihau'r amser sy'n ofynnol i optimeiddio pob cynnyrch, gan ei gwneud yn bosibl i gyflawni perfformiad gorau mewn ychydig oriau yn hytrach na misoedd. Mae'n lleihau'r angen am dreialon costus ac yn gostwng gwastraff deunyddiau, felly'n cyfrannu at broffidioldeb cynyddol a gostyngiad o allyriadau carbon.

Mae'r datblygiadau hyn wedi cael eu gwneud yn bosibl trwy fuddsoddiad o £500,000 mewn electromagneteg a synwryddion tymheredd newydd yn Tata Steel a'r cydweithio effeithiol â Phrifysgol Abertawe, sydd wedi ysgogi datblygiad y fframwaith optimeiddio newydd. Mae potensial cryf i ddefnyddio dull tebyg gyda modelau eraill o fewn y busnes. Dangosodd y prosiect y potensial na fanteisiwyd arno o ddigideiddio ac ymagweddau wedi'u hysgogi gan ddata i gyflawni gwelliannau sylweddol mewn gweithrediadau proses.

Creu cyfleoedd a thwf

Cymorth cyllido

Er mwyn ailadeiladu sector dur cystadleuol y DU sy'n ateb galw domestig, sy'n cryfhau cadwyni cyflenwi, ac sy'n diogelu swyddi o ansawdd uchel ar gyfer y tymor hir, bydd angen buddsoddi sylweddol. Yn achos y buddsoddi mwy, risg uwch neu fwy cymhleth, mae llywodraeth y DU yn cydnabod na all amgylchedd busnes mwy cystadleuol, ar ei ben ei hun, fod yn ddigon, a gall fod angen cymorth ariannol uniongyrchol gan y llywodraeth. Cefnogwyd hyn gan 69% o ymatebwyr i'n hymgyngghoriad strategaeth ddur diweddar, a bwysleisiodd y bydd mynediad at gyllido, wedi'i baru ag amgylchedd busnes mwy cystadleuol, yn helpu i ysgogi twf yn niwydiant dur y DU.

Ymagwedd

Mae'r ymagwedd hon yn canolbwyntio ar ddefnyddio sefydliadau cyllid cyhoeddus a dulliau i helpu i gyllido prosiectau sector dur addawol a chynaliadwy. Y nod yw ei gwneud yn haws i fuddsoddwyr preifat gymryd rhan a chefnogi technoleg newydd ac ymarferion gwyrddach. Trwy gynnig cyllid tymor hir, cydfuddsoddi, a gwarantau, mae'r sefydliadau hyn yn annog buddsoddi mewn prosiectau a allai, fel arall, ei chael yn anodd cael cyllid masnachol oherwydd eu bod yn fawr, cymhleth, neu fod angen amser arnynt i ddangos canlyniadau.

Yr ymyriadau

- » Gan adeiladu ar y cymorth ariannol uniongyrchol y mae'r llywodraeth wedi'i roi hyd yn hyn, y NWF fydd prif ddull llywodraeth y DU o ddarparu cyllid ar gyfer buddsoddi yn y sector dur. Yn unol â'i strategaeth a ffocws ar ddur gwyrdd, mae'r NWF yn ceisio ymgysylltu'n weithredol â chwmnïau dur ar gyfleoedd cyllido wedi'u cydgyfeirio a'i egwyddorion buddsoddi. Mae'r NWF yn gweithredu'n annibynnol ac mae'n cynnig llwybr tryloyw a strategol ar gyfer buddsoddi sy'n ategu cenhadaeth twf llywodraeth y DU. Gall cwmnïau dur wedi'u lleoli yn y DU sy'n ceisio buddsoddiad yn gallu cysylltu â'r NWF yn uniongyrchol yn [Cysylltu â ni! Y Gronfa Gyfoeth Wladol](#)
- » [Mae gan yr NWF £5.8 biliwn o gyfalaf](#) i'w ddyrannu i sectorau yn ystod y Senedd hon: dur gwyrdd, hydrogen, dal, defnydd a storio carbon; porthladdoedd; a gweithgynhyrchu batris a chadwyn gyflenwi cerbydau trydan. Mae'r NWF yn cynnig amrywiaeth o gynhyrchion cyllid gan gynnwys dyled, ecwiti (isafswm y buddsoddiad yw £25m) a gwarantau ar gyfer prosiectau dwys o ran cyfalaf.

- » Bydd Ysgrifennydd Gwladol Cymru yn cynnull y NWF a'r sector preifat mewn cynllun newydd i helpu i ddatgloi buddsoddiad mewn prosiectau dur Cymreig, i gynorthwyo cymunedau ledled Cymru sy'n dibynnu ar y diwydiant.
- » Ar wahân i'r NWF, gall cwmnïau gyrchu cyfres amrywiol o fecanweithiau cymorth wedi'u cefnogi gan lywodraeth DU a datganoledig ar gyfer gwahanol gyfnodau o ran twf busnes ac anghenion sectoraidd. Mae cyllid cyhoeddus ar gyfer masnacheiddio cynhyrchion, prosesau a gwasanaethau newydd ar gael o ffynonellau amrywiol, gan gynnwys Innovate UK. Mae cyllid ar gael i gwmnïau aeddfed trwy nifer o opsiynau:
 - » Mae Banc Busnes Prydain yn mynd i'r afael ag uwchraddio'r bwlch cyllido trwy ddyled ac ecwiti. Fel rhan o strategaeth ddiwydiannol y DU, dyrannwyd £6.6 biliwn ar ffurf cyfalaf. Newydd trwy ddarparu mynediad at gyfalaf twf, mae'n barod i gynorthwyo busnesau arloesol sy'n bwriadu tyfu.
 - » Mae Cyllid Allforio (UKEF), asiantaeth gredyd allforio'r DU, yn darparu cyfalaf gweithio hyblyg i helpu cwmnïau'r DU i allforio dramor ac yswiriant credyd masnach i'w diogelu rhag prynwr yn methu taliad. Fel rhan o'r strategaethau diwydiannol a masnach, mae UKEF wedi ehangu ei gapasiti o £20 biliwn i £80 biliwn i helpu rhagor o fusnesau, gan gynnwys y rheini yn y sector dur, i sicrhau contractau tramor trwy gynnig cyllid deniadol i'w prynwyr.⁵⁷
 - » Mae cymorth cyllido a buddsoddi i fusnesau dur ar gael trwy [Fanc Datblygu Cymru](#), [Banc Buddsoddi Cenedlaethol yr Alban](#), [Scottish Enterprise](#), [Highlands and Islands Enterprise](#), [South of Scotland Enterprise](#) ac [Invest Northern Ireland](#), gan sicrhau bod cyllido yn cryfhau economïau lleol ac yn ysgogi twf ledled y DU.
 - » Mae cyllid ar gael trwy [Gronfa Cadwyn Gyflenwi Gwynt Alltraeth Great British Energy](#). Mae'n gynllun £300 miliwn wedi'i dargedu a'i gynllunio i gryfhau cadwyni cyflenwi domestig ar gyfer gwynt alltraeth.⁵⁸ Mae hyn yn cynnwys cydrannau dur critigol perthnasol, a thrwy hynny yn darparu cymorth i sectorau ymhellach i lawr. Agorodd y gronfa ar gyfer ceisiadau yn Rhagfyr 2025.
 - » Mae llywodraeth y DU wedi cytuno ar darged â'r sector dur o dan y [Cynllun Cytundebau Newid yn yr Hinsawdd \(CCA\)](#). Mae'r cytundeb CCA newydd yn parhau â'r cyfraddau gostyngol [Ardoll Newid yn yr Hinsawdd](#) sylweddol ar gyfer busnesau cymwys yn y sector i Fawrth 2033 yn gyfnewid am ateb targedau effeithlonrwydd ynni y cytunwyd arnynt ac sy'n dechrau ar 1 Ionawr 2026.



Charlie Chesvick,
1224521955

Gwella mynediad at dir addas, cysylltiadau grid trydan a chaniatâd cynllunio

Ymhlith y rhwystrau rhag cyflawni prosiectau newydd yn y sector dur, mae sicrhau cysylltiadau grid amserol a dibynadwy, sicrhau bod safleoedd diwydiannol wedi'u paratoi yn dda, wedi'u lleoli'n strategol, ac yn barod o ran ynni ar gael, a llywio trwy'r systemau caniatâd cynllunio presennol ar draws gweinyddiaethau gwahanol. Yn yr ymatebion i'n hymgyng-horiad ar y strategaeth ddur, amlygodd y rhan fwyaf o ymatebwyr fod cysylltiadau grid (55%) a systemau cynllunio (58%) yn rhwystrau rhag datblygu diwydiannol a phwysleisiodd dros draean yr angen am barthau diwydiannol a safleoedd parod ar gyfer rhawiau. Mae'r canfyddiadau hyn yn amlygu heb dargedu camau gweithredu ar seilwaith ynni, safleoedd blaenoriaeth, a diwygio cynllunio, mae'r DU mewn perygl o golli cyfleoedd i adnewyddu ei sector dur a hybu twf diwydiannol.

Ymagwedd

Mae llywodraeth y DU, gan gydweithio â'r llywodraethau datganoledig am fod cynllunio yn gymhwysedd datganoledig, wedi ymrwymo i'w gwneud yn haws ac yn gyflymach cyflawni prosiectau dur newydd ledled y DU. Byddwn yn sicrhau bod cwmnïau yn gallu buddsoddi ac ehangu â hyder trwy gyflymu gwaith cynllunio a chysylltiadau grid a threfnu bod tir addas ar gael.

Yr ymyriadau

Cysylltiadau grid trydan

- » I gefnogi trawsnewid diwydiannol a sicrhau cysylltiadau amserol â'r grid trydan, mae llywodraeth y DU wedi lansio [Gwasanaeth Cyflymydd Cysylltiadau](#) newydd i Brydain. Fel yr amlinellir yn y strategaeth ddiwydiannol, bydd yn darparu cymorth wrth gysylltu â'r grid ar gyfer prosiectau galw strategol, gan gynnwys y rheini sy'n creu swyddi o ansawdd uchel. Dechreuodd y Gwasanaeth Cyflymydd Cysylltiadau weithredu ar ddiwedd Rhagfyr 2025 a bydd yn cynorthwyo cwmnïau sefydledig yn ogystal â'r rhai sydd newydd ymuno â'r farchnad.
- » Cyflwynodd [Deddf Cynllunio a Seilwaith 2025](#) bwerau newydd i ddiwygio prosesau rheoleiddiol a chyflymu cysylltiadau i brosiectau strategol bwysig. Mae'r bil hwn yn cynnwys pŵer i 'ddynodi' dogfennau strategol llywodraeth y DU sy'n gallu, wedyn, lunio'r gwaith o flaenoriaethu prosiectau penodol, gan gynnwys y strategaeth ddiwydiannol sy'n cydnabod dur yn ddiwydiant sylfaenol. Bydd y Bil wedyn yn llywio'r gwaith o ddyrannu cysylltiadau, gan alluogi llywodraeth y DU i gadw capasiti'r dyfodol ar y grid. Ochr yn ochr â dadflaenoriaethu dros 300GW o brosiectau cynhyrchu a storio amharod neu ddiangen o 'giw' y cysylltiadau, rydym yn canolbwyntio ar leihau'r amseroedd aros yn ddramatig ar gyfer buddsoddiadau mawr yn y DU.
- » Er mwyn gwella ymatebolrwydd y broses cysylltiadau grid ymhellach, mae'r rheoleiddiwr ynni Ofgem [yn cynnal adolygiad cynhwysfawr o'r naill ben i'r llall](#). Yn haf 2025, amlinellodd gynigion i gryfhau'r cymhellion a'r rhwymedigaethau ar gwmnïau rhwydwaith i ddarparu cysylltiadau amserol.
- » Mae diwygiadau ar y gweill eisoes i gyflymu amseroedd adeiladu ar gyfer seilwaith trosglwyddo newydd ac i uwchraddio rhwydweithiau dosbarthu lleol ym Mhrydain. Cyhoeddodd Ofgem y penderfyniad drafft ar gyfer y rheolaeth pris trosglwyddo nesaf ar gyfer 2026 i 2031 ar 1 Gorffennaf 2025 ac ar 4 Rhagfyr 2025, cyhoeddodd Ofgem eu [Penderfyniadau Terfynol](#) ar y setliad rheolaeth pris sydd i ddod (R1IO-3) ar gyfer trosglwyddo trydan, trosglwyddo nwy, a chwmnïau rhwydwaith dosbarthu nwy. Bydd y rheolaeth pris yn cychwyn yn Ebrill 2026 ac yn rhedeg tan 31 Mawrth 2031. Mae Ofgem yn disgwyl i'r buddsoddiad drosglwyddo fod dros £90 biliwn erbyn 2031.⁵⁹ Yn yr un modd, yn ei benderfyniad fframwaith ED3 (Rheolaeth Pris Dosbarthu ar gyfer 2028 i 2033), dangosodd Ofgem y dylai Gweithredwyr Rhwydweithiau Dosbarthu (DNO) baratoi strategaethau buddsoddi hirdymor yn estyn at 2050, wedi'u ffurfio gan Gynlluniau Strategol Ynni Rhanbarthol (RESP) a'r Cynllun Datgarboneiddio Diwydiannol. Mae Ofgem yn disgwyl i weithredwyr DNO ddefnyddio allbynnau RESP a'r Cynllun Datgarboneiddio Diwydiannol i gefnogi Sero Net a galluogi buddsoddiad rhagolwg. Bydd y lefel hon o gyllido yn galluogi'r grid i ateb gofynion cynyddol diwydiant dur modern, wedi'i drydanu.

Safleoedd parod ar gyfer rhawiau

- » Er mwyn mynd i'r afael â phrinder safleoedd buddsoddadwy ar raddfa fawr ledled y DU, lansiodd llywodraeth y DU y Rhaglen Cyflymwr Safleoedd Strategol fel rhan o'r strategaeth ddiwydiannol. Gyda thros £600 miliwn, bydd y rhaglen yn galluogi llywodraeth y DU i ddefnyddio amrediad o ymyriadau i ddod â safleoedd i'r farchnad yn gynt, trwy gynorthwyo, cyflymu, neu brynu safleoedd buddsoddi.⁶⁰

Diwygio Cynllunio

- » Er mwyn ysgogi buddsoddiad, bydd llywodraeth y DU yn carlamu rhagor o brosiectau trwy'r broses gynllunio gan ddarparu eglurder ar [drefn Prosiect Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol \(NSIP\)](#) a Cheisiadau am Gydsyniad Datblygu. Gall prosiectau gweithgynhyrchu dur cymwys yn Lloegr ofyn i 'optio i mewn' i'r drefn gynllunio NSIP o dan ddarpariaethau busnes a masnachol presennol Deddf Cynllunio 2008 a rheoliadau cysylltiedig.
- » Er mwyn gwella effeithlonrwydd y broses gynllunio, mae llywodraeth y DU yn gweithredu pecyn o ddiwygiadau yn Lloegr i leihau beichiau a chyflymu cyflawni. Ymhlith y rhain mae dileu'r gofynion ymgynghori cyn ymgeisio statudol sy'n anelu at leihau amser arferol a dreulir cyn ymgeisio o hyd at 12 mis, ochr yn ochr â symleiddio adolygiadau barnwrol, gan osod targed 13 wythnos ar gyfer penderfyniadau gweinidogol, a gwella ymatebolrwydd awdurdodau lleol. O'u cymryd gyda'i gilydd, bydd y diwygiadau ledled system hyn yn hyrwyddo penderfyniadau amserol a chydlynol sy'n adlewyrchu uchelgeisiau diwydiannol a Sero Net llywodraeth y DU.

Camau a gymerwyd gan lywodraethau datganoledig

Mae llywodraeth Cymru wedi gweithio ar wella cyflymder a pherfformiad cydsynio ar lefel genedlaethol a lleol. Mae'r cam gweithredu hwn wedi cynnwys buddsoddiad uniongyrchol o fewn cyrff cenedlaethol, gan gynnwys Cyfoeth Naturiol Cymru a Phenderfyniadau Cynllunio ac Amgylcheddol Cymru. Mae'r gwelliannau ar lefel lleol yn cynnwys mynd i'r afael ag adnoddau a chydnerthedd LPA trwy fuddsoddi mewn ffioedd cynllunio, adrodd am berfformiad ac adnoddau. Cefnogir cynllunio gofodol ar lefel cynllun cenedlaethol, rhanbarthol a lleol.

Mae system gynllunio yr Alban wedi ei diwygio ac mae iddi ffocws pendant ar gyflawni, i ysgogi twf economaidd, cyflymu datblygiad, a gwella'r gwaith o gyflawni gwasanaeth. Mae llywodraeth yr Alban wedi cyflwyno Hyb Cynllunio Cenedlaethol i dargedu cymorth at awdurdodau cynllunio sy'n gofyn am adnoddau ychwanegol i gyflawni gwasanaethau a gwella capasiti a gallu. Mae'r hyb yn mynd i'r afael yn uniongyrchol â heriau adnoddau a chapasiti yn y system gynllunio. Mae'n darparu cymorth ymchwydd, broceriaeth arbenigol, ac adeiladu capasiti proffesiynol i awdurdodau cynllunio ledled yr Alban. Mae rhanddeiliaid a llywodraeth yr Alban wedi cefnogi'n gryf ymagwedd a arweinir gan gynllun sy'n ymgorffori seilwaith yn gyntaf a mewnbwn cynnar o bartïon sydd â diddordeb.

Amgylchedd treth y DU sy'n cefnogi buddsoddiad

Mae'r DU yn cynnig amgylchedd treth gorfforaethol cystadleuol sy'n cefnogi buddsoddi. Gyda chyfradd Treth Gorfforaethol o 25%, mae gan y DU y brif gyfradd isaf yn y G7, gan wella elw ar ôl treth.⁶¹ Mae'r polisi gwariant llawn yn caniatáu i gwmnïau ddiynnu cost cyfan peiriannau a pheirianwaith sy'n gymwys ym mlwyddyn y buddsoddiad, gan ddarparu hyd at 25c o arbedion treth am bob £1 o Wariant Cyfalaf (CAPEX), sef cymhelliad pwerus ar gyfer tyfu uwch seilwaith gwneud dur.⁶²

Mae'r Credyd Gwariant Ymchwil a Datblygu yn darparu budd ariannol o £16.20 am bob £100 o wariant ar Ymchwil a Datblygu cymwys, gan gefnogi arloesedd mewn technolegau dur carbon isel. Hon yw'r brif gyfradd gydradd uchaf heb ei chapio o ryddhad treth ymchwil a datblygu yn yr G7 i gwmnïau mawr.⁶³ Mae strwythur treth tiriogaethol y DU a rhwydwaith helaeth o fwy na 130 o gytundebau trethu dwbl yn lleihau ffrithiant ymhellach ar gyfer buddsoddi rhyngwladol a gweithrediadau trawsffiniol.⁶⁴

O'u hystyried gyda'i gilydd, mae'r cymhellion hyn yn gwneud y DU yn brif leoliad ar gyfer tyfu gweithrediadau dur gwyrdd, gan ddenu buddsoddwyr domestig yn ogystal â byd-eang sy'n ceisio gwerth tymor hir.

Creu gwerth trwy barthau'r strategaeth ddiwydiannol

Mae 22 Parth Strategaeth Ddiwydiannol llywodraeth y DU – sy'n dwyn Porthlad-doedd Rhydd a Pharthau Buddsoddi ynghyd, o dan ymbarél cyffredin – wedi'u hanelu at hyrwyddo twf mewn sectorau potensial uchel a'r diwydiannau sylfaenol sy'n eu hategu. I fusnesau dur, mae hyn yn cyflwyno cyfle strategol i elwa o alw cynyddol ar draws sectorau twf, yn enwedig mewn meysydd megis gwynt alltraeth, gwaith adeiladu wedi'i ddiwydianeiddio, ac amddiffyn. Mae'r Parthau Strategaeth Ddiwydiannol yn cynnig pecyn o gymorth ariannol, cyllidol a seilwaith i gataleiddio buddsoddi. Mae pob Porthladd Rhydd yn derbyn £25 miliwn mewn cyllid cyfalaf ac mae darparu cymhellion treth hael a Pharthau Buddsoddi ym Mhrydain yn derbyn hyd at £160 miliwn dros 10 mlynedd y gellir ei rannu rhwng rhyddhau treth a gwario hyblyg, tra bydd Parth Buddsoddi Gwell Gogledd Iwerddon, a ddatblygir o hyd, yn derbyn amlen o £150 miliwn. Gall cwmnïau dur yn y parthau hyn ddisgwyl cystadleurwydd gwell, mynediad at glystyrau arloesi, a chydnerthedd hirdymor mewn economi fyd-eang sy'n datgarboneiddio.

stormeiraoer,
1139864421

Symbylu galw am ddur domestig

Disgwylir i'r galw am ddur domestig dyfu dros y degawdau sydd i ddod, ac mae galw domestig sydd eisoes heb ei ddiwallu gan gynhyrchu domestig. Mae ateb y galw hwn sydd heb ei gyffwrdd yn cyflwyno cyfleoedd posibl i gynhyrchwyr dur y DU a chadwyni cyflenwi ymhellach i lawr.

Gellir gwireddu'r cyfleoedd hyn yn rhannol trwy gryfhau'r dulliau ar gyfer prynu dur mewn contractau cyhoeddus, prosiectau a gefnogir gan y llywodraeth (y rheini a gefnogir gan lywodraeth ond heb syrthio o dan y drefn caffael cyhoeddus) a phrosiectau sector preifat (prosiectau anllywodraethol, megis adeiladu preifat neu'r diwydiannu gweithgynhyrchu).

Yn ein hymgyngghoriad a'n bord gron weinidogol ar alw domestig, amlygodd rhanddeiliaid y potensial i leoli cwmnïau dur y DU yn well er mwyn cystadlu am contractau caffael cyhoeddus. Mae hyn yn gyfle marchnad gwerthfawr: yn y flwyddyn ariannol 2024 i 2025, cafodd tua 0.3 miliwn tonnell o ddur eu caffael ar gyfer prosiectau cyhoeddus, sef gwerth o £373 miliwn.^{65, 66} Mae hyn yn cyfateb i 3.1% o gyfanswm galw 2024 y DU am gynhyrchion melinau dur.⁶⁷

Mae cyfleoedd hyd yn oed yn fwy mewn prosiectau a gefnogir gan y llywodraeth a'r sector preifat. Pe bai'r Du yn gallu lleoleiddio'n llawn ei gadwyn gyflenwi sector gwynt, disgwylir y bydd ar wynt alltraeth angen 26.1mt o ddur plât rhwng 2025 a 2050, sy'n gyfle arwyddocaol i sector dur y DU, gan gyfrannu at y bwloch marchnad cronol £22 biliwn mewn plât yn ôl Hatch.⁶⁸

Ymagwedd

Mae llywodraeth y DU am ddefnyddio ei phŵer pwrcasu trwy gaffael cyhoeddus i adeiladu economi gryfach i'r DU, cryfhau cadwyni cyflenwi domestig, cefnogi swyddi lleol o ansawdd da, a llunio marchnadoedd. Cyflawnir hyn trwy ddiwygiadau diweddar ac yn y dyfodol i bolisiâu caffael cyhoeddus.

Er mwyn cynyddu i'r eithaf gyfleoedd twf ar gyfer y sector byddwn yn edrych y tu hwnt i gaffael cyhoeddus i ysgogi galw mewn prosiectau a gefnogir gan y llywodraeth a rhai preifat ehangach. Yn neilltuol, mae cyfleoedd i ddur mewn cynhyrchu ynni carbon isel, megis gwynt.

Mae llywodraeth y DU hefyd yn bwriadu chwarae rôl i dyfu'r farchnad ar gyfer cynhyrchion diwydiannol carbon isel gydag ymgynghoriad a ddaeth i ben yn ddiweddar sydd a ffocws cychwynnol ar ddur, cynhyrchion sment a choncrit a ddefnyddir wrth adeiladu.

Yr ymyriadau

Caffael cyhoeddus

- » Mae llywodraeth y DU wedi newid cyfarwyddyd caffael dur trwy [Nodyn Polisi Caffael newydd \(PPN 022\)](#), a gyhoeddwyd ym Mehefin 2025. Dylai sefydliadau o fewn ei gwmpas (er enghraifft, adran o'r llywodraeth) sydd â chaffaeliadau dur newydd perthnasol, ymgynghori â chatalog digidol Dur y DU cyn gwneud penderyniadau caffael, sy'n golygu bod dur a wneir yn y DU yn cael ei ystyried fel mater o drefn ar gyfer prosiectau caffael cyhoeddus.
- » Ymhellach, mae'r PPN yn annog sefydliadau o fewn y cwmpas i ystyried a ddylai contract sy'n cynnwys dur, er budd diogelwch cenedlaethol, beidio â bod yn ddarostyngedig i'r Ddeddf Caffael, a defnyddio'r eithriad diogelwch cenedlaethol fel y bo'n briodol.
- » Mae hyn yn adeiladu ar ddiwygio caffael blaenorol a bwysleisiodd y pwysigrwydd o ymgysylltu cynnar yn cynnwys y gadwyn gyflenwi gyfan, i wneud cyfleoedd y dyfodol yn fwy gweladwy. Arweiniodd hyn at lywodraeth y DU yn cyhoeddi [data blynyddol ar gaffael dur](#) (gan gynnwys tarddiad y dur a gaffaelwyd) i ddarparu canfyddiadau i gadwyni cyflenwi diwydiant dur, sy'n golygu bod sefydliadau o fewn cwmpas a'u contractwyr yn gallu ymgymryd ag asesiad cywir o gapasiti a gallu marchnad y DU ar adegau perthnasol o fewn cylch oes y prosiectau hyn, gan gynyddu'r cyfleoedd i fanteisio arnynt.
- » Bydd y llywodraeth hefyd yn cyhoeddi ymateb maes o law i'w hymgynghoriad 2025 ar ddiwygiadau ychwanegol i gaffael cyhoeddus, i wella cydnerthedd economaidd y DU a chryfhau cadwyni cyflenwi yn unol a strategaeth ddiwydiannol llywodraeth y DU ac i hyrwyddo'r budd cenedlaethol wrth barchu ymrwymïadau masnach rhyngwladol y DU.

Prosiectau wedi'u cefnogi gan y llywodraeth a rhai preifat.

- » Mae rhai prosiectau cynhyrchu ynni yn elwa o gynllun gwarantu refeniw Contractau am Wahaniaeth (cfD) llywodraeth y DU. Gall contractau CfD gwynt alltraeth ymgeisio am y Bonws Diwydiant Glân (CIBB), sy'n cynnig refeniw CfD ychwanegol i ymgeiswyr sy'n dewis buddsoddi yng nghynaliadwyedd eu cadwyni cyflenwi economaidd, cymdeithasol, ac amgylcheddol. Ar gyfer y [rownd ddyfarnu nesaf sy'n agor yn 2026](#), gall datblygwyr gwynt alltraeth gynnwys gweithgynhyrchwyr dur y DU mewn ceisiadau am Fonws Diwydiant Glân, gan gymell buddsoddi mewn gweithgynhyrchu dur y DU a dur glanach yn y sector twf hwn.
- » Mae datblygiad y sectorau hydrogen a Dal, Defnyddio a Storio Carbon (CCUS) hefyd yn cynrychioli cyfle mawr i fusnesau a gweithwyr y DU. Mae diwydiant wedi gosod uchelgais gwirfoddol o 50% cynnwys lleol y DU ar gyfer hydrogen a CCUS ar draws y gadwyn werth o 2030. Rydym yn archwilio opsiynau ar gyfer sut y gallwn ni ysgogi buddsoddi ychwanegol i mewn i gadwyni cyflenwi CCUS a hydrogen y DU, i sicrhau bod y DU yn diogelu'r buddion economaidd o'r buddsoddiadau mae'n eu gwneud yn y sectorau hyn.

Galw cynyddol am ddur sy'n creu allyriadau isel:

- » Ym Mehefin 2025, ymgynghorodd llywodraeth y DU ar fframwaith polisi gwirfoddol i dyfu'r farchnad ar gyfer cynhyrchion diwydiannol carbon isel gyda ffocws cychwynnol ar gynhyrchion dur, sment a choncrit a ddefnyddir mewn adeiladu.
- » [Roedd polisiâu yr ymgynghorwyd arnynt yn cynnwys sefydlu Fframwaith Adrodd am Allyriadau Corfforedig \(EERF\)](#) i helpu cynhyrchwyr a phrynwyr i fesur, adrodd am a dilysu allyriadau cynhyrchion cymwys, dosbarthiadau cynnyrch i helpu i ddiffinio beth yw cynnyrch carbon isel, a chynigion i ddatblygu cyfarwyddyd ymarfer gorau caffael gwyrdd i sefydliadau cyhoeddus a phreifat. Ceisiodd yr ymgynghoriad hefyd adborth ar opsiynau polisi tymor hirach megis ecolabelu cynnyrch a safonau cynhyrchu gorfodol. Bydd y cynigion yn helpu'r DU i gyflawni ei hymrwymiad COP28 i addewid Caffael Cyhoeddus Gwyrdd y [Mentrau Datgarboneiddio Diwydiannol Dwfn \(IDDI\)](#)⁶⁹ Ymgysylltodd y llywodraeth yn agos â'r diwydiant dur yn ystod yr ymgynghoriad ac mae'n croesawu ei ymrwymiad i gydweithio parhaol. Mae'r llywodraeth yn adolygu ymatebion a bydd yn cyhoeddi ei hymateb maes o law.

Camau a gymerwyd gan llywodraethau datganoledig

Amlinellir polisi llywodraeth Cymru ar gaffael dur yn Nodyn Polisi Caffael Cymru (WPPN) 008,⁷⁰ sy'n berthnasol i brosiectau caffael mawr. Mae hyn yn cydgyfeirio â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, Deddf Caffael 2023 a Rheoliadau perthnasol Cymru a'r Ddeddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus 2023. gan hyrwyddo egwyddorion allweddol megis caffael cynaliadwy ac ymgysylltu cynnar â chynhyrchwyr dur y DU i gryfhau diwydiant domestig a lleihau allyriadau carbon.

Cafodd buddsoddiad seilwaith cyrff cyhoeddus a gynlluniwyd ei amlinellu ar gyfer y cyfnod presennol yng [Nghynllun Buddsoddi Seilwaith yr Alban 2021-22 i 2025-26](#). Cafodd hwn ei ddefnyddio i gynhyrchu piblinell [ragamcanedig o ofynion dur](#), a gafodd ei gyflwyno ar-lein i ddiwydiant. Bydd llywodraeth yr Alban yn ymgynghori'n fuan ar broses strategaeth seilwaith newydd.

Mae llywodraeth yr Alban hefyd yn darparu cyfres o [Offer Caffael Cynaliadwy](#) ar-lein i helpu caffaelwyr sector cyhoeddus i addasu i ymarfer mwy effeithlon o ran adnoddau a chaffael cynaliadwy. Mae'r canllawiau cynaliadwyedd i gleientiaid sector cyhoeddus sy'n rheoli caffael prosiectau adeiladu wedi eu cynnwys yn y '[Canllawiau i Gleientiaid Prosiectau Adeiladu](#)'.

Atodiad A - Ymgynghoriad ar strategaeth ddur

Ymgynghoriad:

Yn Chwefror 2025, lansiodd yr Ysgrifennydd Busnes a Masnach yr ymgynghoriad ar y Cynllun Dur. Gwahoddodd hyn gyfraniadau gan fuddsoddwyr, busnesau, arbenigwyr ehangach, gweithwyr a'r cyhoedd i ffurfio datblygiad y strategaeth ddur. Mae eu hymatebion wedi helpu

- (1) i gynghori ar ba nodau y dylid eu blaenoriaethu
- (2) nodi ble dylai cymorth gael ei dargedu
- (3) gweithredu'r newidiadau angenrheidiol.

Cafodd yr ymgynghoriad ei strwythuro o gwmpas y prif gyfleoedd a heriau a allai gael yr effeithiau mwyaf ar ein diwydiant dur megis:

- » cyllido ac ariannu,
- » galw'r dyfodol a chaffael cyhoeddus,
- » argaeledd safleoedd,
- » sgrap,
- » masnach,
- » gorgapasiti byd-eang,
- » prisiau trydan,
- » dur gwyrdd,
- » Ymchwil, Datblygu ac Arloesi,
- » sgiliau.

Caeodd yr ymgynghoriad ar 31 Mawrth 2025 gydag ymatebion gan bron 100 o sefydliadau ac unigolion, a 57% ohonynt yn fusnesau a chymdeithasau busnesau. Roedd ymatebwyr eraill yn cynnwys aelodau'r cyhoedd, academyddion, undebau llafur, melinau trafod, ASau, cynghorau a sefydliadau'r llywodraeth. O'r ymatebwyr busnes a chymdeithasau busnes, y rheini gan sectorau cynhyrchwyr dur, proseswyr dur a gwneuthurwyr metel (33%) ailgylchu metel (17%) ac ynni a datgarboneiddio (14%) oedd y rhai mwyaf cyffredin.

Mae'r adborth o'r ymgynghoriad wedi ei gynnwys o fewn pob un o'r penodau polisi. Mae'r canrannau a'r cyfrannau o ymatebwyr a ddarparwyd yn seiliedig ar nifer yr ymatebwyr ar gyfer pob cwstïwn unigol, felly mae'n eithrio'r rhai na ymatebasant.

Atodiad B – Costau cynhyrchu dur

Er mwyn cymharu costau cynhyrchu dur yn fyd-eang ar hyn o bryd, gan ddangos sut y gallai'r polisïau trydan a amlinellir yn y strategaeth hon wella cystadleuwydd y DU mae dadansoddiad lefel uchel o gostau cynhyrchu dur byd-eang wedi cael ei gynnal.

Gan fod y strategaeth hon yn amlinellu'r mesurau polisi, blaenoriaethau polisi, a llwybrau arloesi sydd eu hangen i gyflawni trawsnewid i gynhyrchu ar sail EAF, dim ond costau dangosol EAF a amcangyfrifir ar gyfer y DU.

Methodoleg

Mae cydrannau cost sylfaenol yn seiliedig ar Gostau TrawsnewidSero a Chynhyrchu Dur Byd-eang: Set ddata dadansoddi cost ar lefel gwlad a gweithfeydd, wedi'u haddasu i £GBP 2024. Mae'r adroddiad hwn a'r set ddata hon yn darparu amcangyfrifon o lefelau asedau cynhwysfawr o gostau cynhyrchu gweithfeydd dur yn fyd-eang, gyda 473 safle ar draws 13 gwlad wedi'u dadansoddi.⁷¹

Mae'r enghreifftiau EAF a Ffwrneisi Chwyth yr UE a heb fod yn yr UE, yn seiliedig ar gyfartaledd o ddata cost lefel gwlad o fewn pob rhanbarth. Gan nad yw'r DU yn wlad wedi'i chynnwys o fewn yr adroddiad hwn, mae data cost sylfaenol yn seiliedig ar gyfartaledd o gostau EAF yn yr UE o'r adroddiad Gwybodaeth TrawsnewidSero a Gwybodaeth Effeithlonrwydd Byd-eang. Mae hyn ac eithrio costau trydan gydag addasiadau wedi'u hamlinellu isod.

Trydan

Oherwydd y newid mewn prisiau trydan ers cyhoeddi'r adroddiad, mae costau trydan o'r set ddata trawsnewid sero wedi eu disodli gan ddefnyddio prisiau trydan o waith Baringa a gyhoeddwyd 2024 i DBT a DESNZ, gyda dadansoddiad DBT ar gostau rhwydwaith Prydain o'r Ymgynghoriad ar Gynllun lawndal Costau Taliadau Rhwydweithiau ar gyfer diwydiannau dwys o ran ynni. I wneud hyn, mae costau trydan £/MWh yn cael eu haddasu i £/t dur crai gan ddefnyddio ffactor dwyster ynni o 0.435 ar gyfer EAF a 0.178 ar gyfer ffwrneisi chwyth integredig. Mae'r ffactorau hyn yn cael eu caffael o Ddur ar y Modelau Cost Net ac maen nhw'n unol â chyhoeddiadau eraill fel y rheini o MPI a JRC.^{72, 73}

Atodiad C – Methodoleg Asesu Galw Strategaeth Ddur y DU

[Mae Asesiad Galw Strategaeth Ddur y DU](#), a luniwyd gan ymgynghoriaeth annibynnol Hatch, yn un ffynhonnell yn unig o dystiolaeth a ddefnyddiwyd i lywio'r Strategaeth Ddur, i gael rhagor o wybodaeth gweler yr adroddiad cyhoeddus llawn.

Mae gwybodaeth sy'n edrych ymlaen yn seiliedig ar gred, amcangyfrifon a barn ar yr adeg y cawsant eu gwneud. Ni all fod sicrwydd y bydd gwybodaeth sy'n edrych ymlaen yn profi'n gywir, gan y gallai canlyniadau go iawn a digwyddiadau'r dyfodol wahaniaethu'n sylweddol i'r rheini a ragwelwyd mewn datganiadau neu wybodaeth o'r fath.

Methodoleg Rhagfynegi Galw Tymor Hir:

(a) Nodi Ysgogwyr Cynnyrch:

- (1) Diffiniad Cwmpas – Diffinio cwmpas trwy nodi ffiniau eglur ar gyfer cwmpas y cynnyrch, gan sicrhau y cafodd mewnwelediadau eu cyflawni yn y meysydd sy'n cael yr effaith fwyaf.
- (2) Nodi Diwydiant – Sefydlu diwydiannau allweddol sy'n defnyddio pob cynnyrch.

- (3) Adnabyddiaeth Ysgogwyr Galw – Sefydlu ysgogwr allweddol ar gyfer pob diwydiant yn ddirprwy ar gyfer tuedd twf y galw am ddur.

(b) Data Gwaelodlin:

- (1) Casglu Data a Sefydlu Gwaelodlin - Defnyddio dadansoddiad Hatch i ragfynegi'r data gwaelodlin rhwng 2017 a 2024 i arddangos galw presennol am gynhyrchion dethol.
- (2) Dyraniad Diwydiant – Holli a dyrannu galw cyffredinol am ddata cynhyrchion yn seiliedig ar alw pob diwydiant.

(c) Rhagfynegi:

- (1) Casglu Data Eilaidd – Cynnal ymchwil eilaidd i archwilio rhagfynegiad wedi'i gefnogi gan dystiolaeth trwy gydol 2050. Gall ffynonellau gynnwys polisiâu yn ogystal â phrosiectau wedi'u cynllunio a dadansoddiadau marchnad trydydd-parti.
- (2) Rhagfynegi Galw – Defnyddio cyfraddau twf o ysgogwyr galw yn ogystal â rhagor o ddadansoddiad gan Hatch i ragamcanu'r galw am gynhyrchion.

Ôl-nodiadau

- 1 Seiliedig ar ddata o [World Steel in Figures – worldsteel.org](https://worldsteel.org). 'Dros 50%' wedi deillio o gyfanswm cynnyrch y DU o ddur crai yn 2015 o 10.9Mt, yn syrthio i 4Mt yn 2024.
- 2 Defnyddir y term dur gwyrdd a dur allyriadau isel yn dermau generig trwy gydol y ddogfen oni fanylir fel arall
- 3 Mae Cyflenwad Marchnad a Galw Domestig o fewn y papur hwn yn seiliedig ar ystadegau blynyddol diwydiant haearn a dur y DU a gasglwyd gan ISSB Limited, sy'n ymgorffori gweithgareddau'r Biwro Ystadegau Haearn a Dur blaenorol. Pob blwyddyn galendr mae ISSB yn derbyn data sylfaenol gan gynhyrchwyr dur ar eu cynhyrchu a gwerthiannau o gynhyrchion dur, mae'r cwmnïau hyn yn cwrdd holl gynhyrchu'r DU o gynhyrchion dur lled orffenedig a gorffenedig y DU. Mae ISSB yn gweithio'n agos gyda Dur y DU i ymgysylltu â'r wybodaeth hon a'i chasglu yn uniongyrchol oddi wrth y cwmnïau. Mae cynhyrchion dur y cyfeirir atynt yma yn unol â'r Cynhyrchion Cymunedau Glo a Dur Ewropeaidd a'r Cynhyrchion Diwydiant Dur eraill, sy'n cael eu diffinio yn ôl siâp, maint a gorffeniad yn unol â BS EN 10079 – safon diffiniad cynnyrch wedi'i gyson yr Undeb Ewropeaidd. Mae ISSB yn derbyn gwybodaeth yn uniongyrchol sy'n ymwneud a phob cwmni; gwerthiannau i ddiwydiannau'r DU sy'n defnyddio; gwerthiannau i ddeiliaid stoc dur yn y DU; gwerthiant sy'n cael ei allforio. Yn seiliedig ar y diffiniadau ar gyfer cynhyrchion dur, mae ISSB wedyn yn coladu data o ddata masnach CThEF i gyfrifo lefel o fewnforion y DU. Yn y papur hwn, i gyfrifo cyflenwad y farchnad (galw domestig), mae swm o werthiant y DU i ddiwydiannau sy'n eu defnyddio, Gwerthiant i ddeiliaid stoc dur y DU a mewnforion yn cael eu cyfrifo, i gyfrifo cynhyrchu domestig cymerir swm gwerthiant y DU i ddiwydiannau sy'n defnyddio ac i ddeiliaid stoc dur y DU. Cyfrifir cyfran y cyflenwad domestig trwy rannu'r cyflenwad marchnad gan ddanfoniadau domestig. Cysylltwch ag ISSB os oes angen rhagor o fanylion: info@issb.co.uk
- 4 [Tata Steel / gwaith dur Port Talbot C ac A - GOV.UK](#), [Mae llywodraeth y DU yn darparu £22M o gymorth ychwanegol i weithwyr dur a busnesau Port Talbot – GOV.UK](#)
- 5 [Miloedd o swyddi i gael eu creu wrth i'r llywodraeth gyhoeddi buddsoddiad biliynau lawer i adeiladu Sizewell C – GOV.UK](#)
- 6 [Marcegaglia Stainless Sheffield i fuddsoddi £50m mewn ffwrnais EAF newydd](#)
- 7 [Y strategaeth ddur: y cynllun ar gyfer dur – GOV.UK](#)
- 8 [Hybiau ymchwil newydd i dorri carbon ac ail-lunio gweithgynhyrchu'r DU – UKRI](#)
- 9 [Y Gronfa Gyfoeth Wladol i ysgogi mwy na £100 biliwn i economi'r DU](#)
- 10 [Strategaeth Fodern Ddiwydiannol y DU 2025 – GOV.UK](#)
- 11 [JOBS03: Swyddi gweithwyr fesul diwydiant – Swyddfa Ystadegau Gwladol Q3 2025](#), [JOBS04: Swyddi hunangyflogaeth fesul diwydiant – Y Swyddfa Ystadegau Gwladol Q3 2025](#) a [Swyddfa Ystadegau Gwladol: Cofrestr cyflogaeth busnes 2024](#). Yn seiliedig ar gyfanswm cyflogaeth Cod 24 SIC gweithgynhyrchu Metelau Sylfaenol o swyddi gan ddiwydiant, wedi'u dynodi gan 3 lefel cod sic 24.1-24.3 Haearn a dur sylfaenol fel % o gyfanswm cod SIC 24 yn BRES.
- 12 Yn seiliedig ar asesiad o enillion ac oriau a weithiwyd, diwydiant yn ôl SIC pedwar digid: Tabl ASHE 2024, Gweithgynhyrchu haearn a dur sylfaenol ac o aloiau haearn gwerth tâl blynyddol canolrif gros o £40,186. I bennu gwerth tâl canolog blynyddol ar draws awdurdodau lleol, cyfartaledd gwerthoedd canolrif Castell-nedd Port

Talbot Caerdydd, Gogledd Swydd Lincoln Rotherham a Sheffield o Nomis, [arolwg blynyddol o oriau ac enillion – cafodd dadansoddiad o fan gwaith](#) ei gymryd, y gwerth hwn oedd £30,397.

- 13 [Hatch, Asesiad Galw Strategaeth Ddur y DU](#)
- 14 [Hatch, Asesiad Galw Strategaeth Ddur y DU](#), Gwefannau Cwmnïau
- 15 [Catalog Dur y DU – Mynegai](#), Gwefannau Cwmnïau
- 16 Gwefannau Cwmnïau
- 17 Gweler Atodiad A am ragor o wybodaeth am yr ymgynghoriad ar y strategaeth ddur
- 18 Sefydliad ar gyfer Cydweithredu a datblygu Economaidd (OECD) (2025) [Rhagolwg Dur OECD 2025](#). Paris: Cyhoeddi OECD. Ffigwr 13% wedi'i gyfrifo o'r capasiti cynhyrchu presennol (640.4Mmt) holl wledydd OECD ar dudalen 26
- 19 Gweler Atodiad A am ragor o wybodaeth am yr ymgynghoriad ar y strategaeth ddur
- 20 Mae Cyflenwad Marchnad a Galw Domestig yn y papur hwn yn seiliedig ar ddata a ddarparwyd gan ISSB, am ragor o fanylion gweler nodyn diwedd 3. Cysyllter ag ISSB os oes angen rhagor o fanylion: info@issb.co.uk
- 21 Mae Cyflenwad Marchnad a Galw Domestig yn y papur hwn yn seiliedig ar ddata a ddarparwyd gan ISSB, am ragor o fanylion gweler nodyn diwedd 3. Cysyllter ag ISSB os oes angen rhagor o fanylion: info@issb.co.uk
- 22 [Hatch, Asesiad Galw Strategaeth Ddur y DU](#), Gwefannau Cwmnïau
- 23 <https://www.gov.uk/government/news/tata-steel-port-talbot-steelworks-qa>, 5,000 o swyddi wedi'u diogelu wrth i adeiladu ddechrau ar brosiect dur gwyrdd Port Talbot – GOV.UK
- 24 <https://www.gov.uk/government/news/tata-steel-port-talbot-steelworks-qa>, 5,000 o swyddi wedi'u diogelu wrth i adeiladu ddechrau ar brosiect dur gwyrdd Port Talbot – GOV.UK
- 25 [Llywodraeth y DU yn darparu £22M o gymorth ychwanegol i weithwyr dur a busnesau Port Talbot – GOV.UK](#)
- 26 <https://www.gov.uk/government/news/new-11m-fund-opens-to-support-jobs-growth-and-investment-in-port-talbot>
- 27 [Cronfa £11.7m i hybu buddsoddi a swyddi ym Mhort Talbot – GOV.UK](#)
- 28 [£8 miliwn i brosiect twf ac adfywio Port Talbot – GOV.UK](#)
- 29 [Buddsoddiad newydd mewn adfywio yn hybu twf a swyddi ym Mhort Talbot – GOV.UK](#),
- 30 <https://www.gov.uk/government/news/transport-secretary-secures-major-rail-supply-deal-to-protect-thousands-of-british-steel-jobs>
- 31 [Cytundebau Twf Amddiffyn Newydd Wedi ei Creu i Hybu Economiâu Lleol o Dan Gynllun Mawr i'r Sector – GOV.UK](#)
- 32 [Miloedd o swyddi i'w creu wrth i'r llywodraeth gyhoeddi buddsoddiad biliynau lawer i adeiladu Sizewell C – GOV.UK](#), [Erthygl: Sheffield Forgemasters yn rhoi manylion cynlluniau £1.3bn](#)

- 33 <https://www.uksteel.org/steel-news-2024/marcegaglia-stainless-sheffield-to-invest-50-million-in-new-electric-arc-furnace-creating-50-jobs>
- 34 [Cannoedd o swyddi newydd wedi eu creu gan fuddsoddiad gweithgynhyrchu Sheffield – GOV.UK](#)
- 35 [IETF Cam 2, Haf 2022: enillwyr cystadleuaeth – GOV.UK](#)
- 36 Hatch, Asesiad Galw Strategaeth Ddur y DU
- 37 Hatch, Asesiad Galw Strategaeth Ddur y DU
- 38 Sefydliad ar gyfer Cydweithredu a Datblygu Economaidd (OECD) (2025) [Rhagolwg Dur OECD 2025](#) Paris: Cyhoeddi OECD. Ffigwr 13% wedi'i gyfrifo o'r capasiti cynhyrchu presennol (640.4Mmt) o holl wledydd OECD ar dudalen 26
- 39 [Gwybodaeth Masnach y DU gan Gyllid a Thollau Ei Fawrhydi](#), yn seiliedig ar godau HS yn cwmpasu dur: HS 7206-7307.
- 40 [Tariffau masnach yr Unol Daleithiau – Llyfrgell Tŷ'r Cyffredin](#)
- 41 [Llywodraeth yn camu i mewn i gefnogi busnesau Prydeinig mewn byd sy'n newid – GOV.UK](#)
- 42 Dur y DU, [Cau'r Bwlch Pris Pŵer, Sicrhau Dyfodol Dur y DU](#), 2025. 93% Yn seiledig ar brisiau polisi gros GB gwreiddiol yw £92/MWh, wedi'i ostwng gan eithriadau ac iawndaliadau i £6/MWh.
- 43 [Uwchwefrwr Diwydiant Prydain yn rhoi hwb enfawr i fusnesau'r DU – GOV.UK](#)
- 44 DESNZ, DBT: [Diwydiannau dwys o ran ynni \(Ells\)](#): ymgynghoriad ar y cynnydd arfaethedig i'r Cynllun lawndal Costau Taliadau Rhwydweithiau i ddiwydiannau dwys o ran ynni (2025)
- 45 Caffaelir costau trydan o waith Baringa a gyhoeddwyd yn 2024 ar gyfer DBT a DESNZ, gyda dadansoddiad DBT o gostau rhwydweithiau Prydain o'r Ymgynghoriad ar y Cynllun lawndal Costau Taliadau Rhwydweithiau i ddiwydiannau dwys o ran ynni
- 46 [Cynllun Cystadleurwydd Diwydiannol Prydain: ymgynghoriad ar gymhwysedd ac ymagwedd y cynllun – GOV.UK](#)
- 47 Caffaelir costau trydan o waith Baringa a gyhoeddwyd yn 2024 i DBT a DESNZ, gyda dadansoddiad DBT ar gostau rhwydweithiau Prydain o'r Ymgynghoriad ar y Cynllun lawndal Costau Taliadau Rhwydweithiau i ddiwydiannau dwys o ran ynni. Er mwyn amcangyfrif y gydran gost £/t yn y data, mae prisiau trydan yn cael eu haddasu i £/t dur crai gan ddefnyddio ffactor dwysedd ynni o 0.435 ar gyfer Ffwrnais Arch Drydan a 0.178 ar gyfer Ffwrnais Chwyth Integredig. Mae'r ffactorau hyn yn cael eu caffael o [Ddur ar y Modelau Cost Net](#) ac maent yn unol â chyhoeddiadau eraill megis y rheini o [MPI](#) a [JRC](#)
- 48 DESNZ, DBT: [Diwydiannau dwys o ran ynni \(Ells\)](#): ymgynghoriad ar y cynnydd arfaethedig i'r Cynllun lawndal Costau Taliadau Rhwydweithiau i ddiwydiannau dwys o ran ynni (2025)
- 49 [Adolygiad Dyrannu Am Ddim: ymgynghoriad ar ollwng carbon \(HTML\) – GOV.UK](#)
- 50 [Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU: Adolygiad Dyrannu Rhad Ac Am Ddim priif ymateb Awdurdod \(Tachwedd 2025\)](#)
- 51 [Dur y DU, Dur Sgrap: Deunydd Crai Strategol ar gyfer Dur Sero Net, 2023](#)

- 52 [Hatch, Asesiad Galw Strategaeth Ddur y DU](#)
- 53 [Horizon Europe – Innovate UK Business Connect](#)
- 54 [Gwneud y DU y lle gorau i wneud busnes: Strategaeth Fodern Ddiwydiannol wedi'i gosod i ddyfnhau cydweithio byd-eang – GOV.UK](#)
- 55 [Uwchgynhadledd Arloesi Genedlaethol yr Alban: Araith y Dirprwy Brif Weinidog – gov.scot](#)
- 56 [Gwerthuso Cronfa Her Strategaeth Ddiwydiannol Made Smarter Innovation: adroddiad atodiad gwerthusiad terfynol](#)
- 57 [Strategaeth Fasnach Newydd i ddiogelu a hybu busnesau Prydain – GOV.UK](#)
- 58 [Cronfa cadwyn Gyflenwi Great British Energy \(GBE\): Gwynt Alltraeth a Rhwydweithiau | Great British Energy](#)
- 59 [Ofgem yn datgloi buddsoddiad £28 biliwn i gynnal grid ynni diogel, sicr a chydnerth ac i uwchraddio ac ehangu capasiti i ateb gofynion cynyddol | Ofgem](#)
- 60 [Strategaeth Fodern Ddiwydiannol y DU 2025 – GOV.UK](#)
- 61 [Corporate Tax Roadmap.pdf](#)
- 62 [Hawlio lwfansau cyfalaf: Talu costau llawn a 50% o lwfans blwyddyn gyntaf – GOV.UK](#)
- 63 [Credyd gwariant Ymchwil a datblygu i gwmnïau mawr a mentrau bach a chanolig – GOV.UK](#)
- 64 [Cytundebau treth – GOV.UK](#)
- 65 Lle manylwyd yn llawn ar gyfaint neu werth a contractiwyd
- 66 [Caffael cyhoeddus dur 2026](#)
- 67 Mae Cyflenwad Marchnad a Galw Domestig yn y papur hwn yn seiliedig ar ddata a ddarparwyd gan ISSB, am ragor o fanylion gweler nodyn diwedd 3. Cysyllter ag ISSB os oes angen rhagor o fanylion: info@issb.co.uk
- 68 [Hatch, Asesiad Galw Strategaeth Ddur y DU](#)
- 69 Dangosodd llywodraeth y DU ei bwriad i ateb hyd at lefel 3 o Addewid Caffael Cyhoeddus Gwyrdd yr IDDI sydd, gan ddechrau heb fod yn hwyrach na 2030, yn gofyn am gaffael sment/concrit a dur allyriadau isel mewn prosiectau adeiladu cyhoeddus, gan ddefnyddio'r uchelgais uchaf bosibl o dan amgylchiadau cenedlaethol
- 70 [Nodyn Polisi Caffael Cymru WPPN 008: Caffael dur mewn prosiectau adeiladu a seilwaith mawr yng Nghymru \[HTML\] | GOV.WALES](#)
- 71 [TrawsnewidSero \(2022\), 'Adroddiad: Costau Cynhyrchu Dur Byd-eang'](#)
- 72 [Modelau Cost Dur | BOF EAF Billet Slab HRC CRC Rebar Tube](#)
- 73 MPI: Materials Processing Institute (MPI), [Renewable Electrical Power and Energy Storage For EAF Steel Production \(2021\)](#), Joint Research Centre (JRC),; Koolen, D. and Vidovic, D., [Greenhouse gas intensities of the EU steel industry and its trading partners](#)

Roo Lewis,
1947467525

ISBN 978-1-5286-6820-0
E03689805